Department for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**Dyddiad lansio 23 Mai 2012**
**Ymateb erbyn 3 Awst 2012**
**Cyf: Yr Adran Addysg**

**Diogelu plant: newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth plant sy'n perfformio.**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi argymhellion ar gyfer diweddaru a symleiddio'r ddeddfwriaeth ar gynnwys plant, hyd at ddiwedd oedran ysgol gorfodol, mewn amrywiaeth o weithgareddau perfformio.

Saif y trefniadau trwyddedu ochr yn ochr â Chod Darlledu Ofcom a'r canllawiau cysylltiedig sy'n cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer diogelu plant sy'n cymryd rhan ym mhob rhaglen deledu a radio.

Mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. Y nod yw sicrhau bod diwygiadau i ddeddfwriaeth perfformiadau plant yn gyson drwy Gymru a Lloegr.

**Diogelu plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau: newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth plant sy'n perfformio.**

**Ymgynghoriad**

**Ar gyfer:** Cwmnïau cynhyrchu proffesiynol ac amatur; cwmnïau ffilm a darlledu; asiantaethau modelu; cymdeithasau chwaraeon; aelodau o'r diwydiant hysbysebu a ffasiwn; awdurdodau lleol; ysgolion dawns, drama, cerddoriaeth a llwyfan; sefydliadau sy'n cynrychioli diddordebau a lles plant; hebryngwyr; prifathrawon a llywodraethwyr.

**Cyhoeddwyd** 23 Mai 2012
**Ymateb erbyn** 3 Awst 2012

Mae'r cyfnod ymgynghori ychydig yn fyrrach na'r 12 wythnos safonol. O'r adolygiad polisi a gyflwynodd ei adroddiad yn 2010, a'r gwaith sy'n parhau gyda phawb sydd â diddordeb gan gynnwys gweithdai yn ystod y cyfnod, credwn na fydd y cyfnod ychydig yn fyrrach yn amharu ar y cyfle i rai sydd â diddordeb allu ymateb.

**Ymholiadau at:**

Os ydych wedi'ch lleoli yn Lloegr a bod gennych ymholiad sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn, gallwch ffonio 0370 000 2288, neu e-bostio childperformance.consultation@education.gsi.gov.uk

Os ydych wedi'ch lleoli yng Nghymru, gallwch weld yr ymgynghoriad yn: http://wales.gov.uk/consultations/education/safeguardingchildren/?lang=cy

Gallwch anfon ymholiadau ac ymatebion o Gymru ar ffurf e-bost at:

e-bost: CSD3SafeguardingChildren@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post at:
Elaine Hepple
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gofynnir i randdeiliaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i anfon eu hymatebion at Lywodraeth Cymru.

# Cynnwys


1. Crynodeb gweithredol 1
2. Cyflwyniad 6
3. Cefndir a chyd-destun 8
4. Asesu effaith newidiadau 11
5. Cwmpas gofynion trwyddedu 13
6. Eithriadau rhag trwyddedu 16
7. Newidiadau i drwyddedu 19
8. Cynyddu cyfleoedd i blant 23
9. Hebryngwyr 26
10. Addysg 27
11. Gweithio dramor 29
12. Lleihau biwrocratiaeth 30
13. Cosbau cymesur 33
14. Sut i ymateb 35

# 1. Crynodeb gweithredol

1.1 Gall perfformio, boed ar lwyfan, mewn arena, ar set ffilm, neu mewn stiwdio deledu, fod o fudd gwirioneddol i blant. Mae plant yn mwynhau'r gweithgareddau hyn, sy'n gallu cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu sgiliau newydd, datblygu dawn, ac adeiladu hyder. Dylai perfformio fod yn brofiad cadarnhaol i blentyn i ategu ei addysg, a'i ymestyn lle bo modd. Hoffem ganiatáu i blant gael pob cyfle i gymryd rhan mewn perfformiadau, a gwneud trefniadau priodol i sicrhau eu diogelwch a'u lles.

1.2 Fel y nododd adolygiad polisi yn 2010[1], mae rheoliadau trwyddedu plant i gymryd rhan mewn perfformiadau yn gymhleth ac wedi dyddio. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gweinyddu'r trefniadau yn eu hardaloedd, ond gall y cymhlethdod arwain at wahaniaethau o ran eu dehongli a'u gweithredu. Mae hyn yn gallu arwain at gyfleoedd gwahanol i blant yn dibynnu ble maen nhw'n byw, ac mae'n anodd i gynhyrchwyr sy'n recriwtio mewn gwahanol ardaloedd. Bwriadwn symleiddio a moderneiddio'r ddeddfwriaeth, ac annog cysondeb.

1.3 Saif gofynion trwyddedu'r awdurdod lleol ochr yn ochr â dyletswyddau pob darlledwr a drwyddedwyd i weithredu yn y DU i gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom. Mae hwn yn nodi cyfrifoldebau eglur ar gyfer diogelu plant sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni radio a theledu. Materion ar gyfer Ofcom fydd cwestiynau'n ymwneud â chynnwys a phenderfyniadau golygddol darlledwyr yn hytrach na'u bod yn rhan o drefniadau trwyddedu perfformiadau'r awdurdod lleol.

### Egluro pryd y mae'n rhaid cael trwydded ar gyfer plant sy'n perfformio

1.4 Mae gofynion trwyddedu plant i gymryd rhan mewn perfformiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sy'n dyddio o'r 1960au. Fe'i lluniwyd i sicrhau lles a diogelwch plant sy'n perfformio. Mae'r rheolau'n gymhleth ac wedi dyddio. Gall plant heddiw gymryd rhan mewn llawer mwy o weithgareddau nad oedd neb yn gallu eu dirnad pan luniwyd y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, nid yw hi bob amser yn eglur pa weithgareddau sy'n galw am eu trwyddedu a pha rai nad oes angen trwydded ar eu cyfer.

1.5 Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhai mathau o sioeau teledu. Rydym yn argymell y dylai trwydded barhau i fod yn angenrheidiol pan fo plentyn yn cael ei osod mewn amgylchiadau artiffisial a ddyfeisiwyd er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol ac sy'n creu risgiau na fyddai plentyn yn eu hwynebu yn ei fywyd bob dydd. Ystyriwn fod yr amgylchiadau hyn yn fwy tebygol o fod yn risg i ddiogelwch neu les plant. Ni fyddai angen trwydded ar gyfer rhaglenni 'pry ar y wal', rhaglenni dogfen ffeithiol neu gyfweliadau â phlant lle nad yw'r amgylchiadau wedi'u dyfeisio'n benodol er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol. Ystyriwn fod y mathau hyn o raglenni'n peri llai o risg i blant. Bydd yn rhaid trwyddedu rhaglenni sy'n cael eu disgrifio neu eu cyflwyno fel rhai 'arsylwadol' neu 'ffeithiol', ond bod profiad y plentyn wedi'i ddyfeisio er mwyn creu effaith ddramatig. Mater i'r awdurdod lleol fydd y

[1] Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Sarah Thane (CBE, cyn Gadeirydd y Gymdeithas Deledu Frenhinol a chyn gynghorydd Ofcom) yr adroddiad: *Exploratory review of the system of regulating child performances*

penderfyniad terfynol. Ond dylid nodi fod diogelwch plant yn cael ei reoli drwy God Darlledu Ofcom pryd bynnag y bydd plant yn ymddangos ar y teledu.

1.6 Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r amodau y cafodd rhai plant sy'n modelu eu cyflogi ynddynt. Bwriadwn gadw'r gofyniad trwyddedu ar gyfer plant sy'n modelu pa un a fyddant yn cael eu cyflogi yn y DU neu dramor. Pan fydd plant 13 oed neu hŷn yn cymryd rhan mewn chwaraeon proffesiynol am dâl[2] credwn y dylai eu potensial, eu datblygiad proffesiynol a'u lles fod yn fater ar gyfer y cyrff llywodraethu chwaraeon sy'n gorfod mabwysiadu Safonau cenedlaethol ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon.[3]

1.7 Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfyngiadau ar gyhoeddi trwyddedau i blant o dan bedair ar ddeg ac eithrio ar gyfer canu, dawnsio, actio neu gymryd rhan mewn perfformiad cerddorol[4]. Mae'r terfyn oedran penodol yn gosod cyfyngiadau diangen ar gynyrchiadau darlledu ac i'w weld yn rhwystr i blant rhag cymryd rhan mewn amrywiaeth o berfformiadau. Bwriadwn ddiddymu'r cyfyngiad hwn ar oedran.

**Rydym yn argymell y dylid egluro pryd y mae angen trwydded awdurdod lleol i blentyn gael cymryd rhan mewn perfformiad.**

### Symleiddio'r gofynion trwyddedu

1.8 Dywedodd cynhyrchwyr fod y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chael y trwyddedau angenrheidiol ar gyfer plant sy'n perfformio yn gallu eu rhwystro rhag cynnwys plant o gwbl. Ceir cyfyngiadau nad ydynt i'w gweld yn cyflawni unrhyw ddiben defnyddiol o ran sicrhau diogelwch neu les plant sy'n perfformio. Rydym eisiau diddymu'r fiwrocratiaeth ddiangen sy'n rhwystro cynyrchiadau amatur yn arbennig rhag cynnwys plant ar hyn o bryd.

1.9 Ychydig o hyblygrwydd sydd yna yn y ddeddfwriaeth bresennol gyda'i gofynion manwl a chymhleth. Mae hyn yn gorfodi swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol i dreulio amser yn mynd ar ôl gwaith papur a'i wirio. Credwn fod angen fframwaith newydd er mwyn i awdurdodau lleol allu canolbwyntio ar amddiffyn plant rhag risg go iawn yn hytrach na chael eu clymu gan waith gweinyddol biwrocratiaeth ddiangen. Rydym eisiau iddynt dreulio llai o amser ar ffurflenni a rhagor ar archwilio a gorfodi, a chefnogi arferion da er mwyn gwella mesurau diogelu.

1.10 Mae angen sicrwydd ar awdurdodau lleol y bydd cynhyrchwyr yn rhoi mesurau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch a lles plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio. Ond ni ddylai fod angen trwyddedau unigol pan fydd plant hŷn yn cymryd rhan mewn cynyrchiadau mawr 'un-tro', na phan fydd plant yn perfformio gyda grwpiau amatur. Dull mwy effeithlon o weithredu mewn amgylchiadau fel hyn fyddai ymestyn y broses gymeradwyo wedi'i symleiddio (a elwir yn gymeradwyaeth 'Corff o Bobl'), a chreu system gofrestru newydd ar gyfer grwpiau amatur. Dylai'r broses bwysleisio cyfrifoldeb cynhyrchwyr i nodi a rheoli

---

[2] Diffinnir chwaraeon yn ôl yr hyn sy'n cael ei gydnabod fel gweithgaredd chwaraeon gan Sport England.
[3] Fel y nodwyd gan yr Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon, sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Sport England a'r NSPCC.
[4] Adran 38 o Ddeddf 1963

risgiau, i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fesurau ar gyfer diogelu plant sy'n perfformio yn gynnar yn eu gwaith cynllunio.

**Rydym yn argymell y dylid:**

- symleiddio'r broses drwyddedu er mwyn i blant gael cymryd rhan mewn cynyrchiadau proffesiynol;
- ymestyn y broses gymeradwyo wedi'i symleiddio ar gyfer plant sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau 'un-tro' i gynnwys plant tair ar ddeg oed a hŷn sy'n cael eu talu; a
- sefydlu system gofrestru syml yn lle gofynion trwyddedu ar gyfer cwmnïau sy'n llwyfannu cynyrchiadau amatur.

**Hebryngwyr**

1.11 Oedolyn a benodir i ofalu am blant sy'n perfformio er mwyn sicrhau eu diogelwch a'u lles yw hebryngwr ('matron' yw'r term a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth). Mae'n ofynnol i bob perfformiad lle mae angen trwydded awdurdod lleol i benodi hebryngwr hefyd. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, rhaid i bob hebryngwr gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod lleol, ac ni chaiff hebryngwr fod yn gyfrifol am ofalu am fwy na deuddeg o blant ar y tro[5].

1.12 Mae'n bwysig i blant sy'n perfformio gael rhywun i droi atyn nhw sydd â chyfrifoldeb am eu lles, a bwriadwn gadw'r gofyniad ar gynyrchiadau amatur a phroffesiynol i benodi hebryngwyr. Awgrymodd y grŵp cynghori ar adolygu polisi ei bod hi'n anodd gofalu am ddeuddeg o blant ar yr un pryd, yn enwedig pan fydd plant o oedrannau gwahanol ac yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Mae cwmnïau cynhyrchu'n dweud mai'n anaml iawn yn ymarferol y bydd gofyn i hebryngwr ofalu am fwy na deg o blant.

**Rydym yn ymgynghori i weld a ddylid gostwng uchafswm y nifer o blant y caiff hebryngwr fod yn gyfrifol amdanynt.**

1.13 Rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau diogelwch a lles eu plant, a byddant eisiau sicrwydd eu bod yn cael gofal addas pan fyddant yn cymryd rhan mewn perfformiadau. Yn aml, bydd rhieni'n rhan o'r gweithgaredd eu hunain, ac weithiau'n gweithredu fel hebryngwyr i'w plant eu hunain a phlant eraill. Rydym yn ei hystyried hi'n briodol cadw'r gofyniad am hebryngwyr ar gyfer perfformiadau amatur. Mae grwpiau proffesiynol ac amatur wedi mynegi diddordeb mewn sicrhau bod gan hebryngwyr y sgiliau a'r crebwyll angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant yn effeithiol, ac mae'r modd y mae arferion da'n cael eu rhannu yn galonogol. Ond nid ydym yn ystyried bod angen i'r wladwriaeth bennu pwy gaiff ofalu am blant yn ystod perfformiadau amatur, pan fydd y rhieni eu hunain yn fodlon fod eu plant yn hapus ac yn ffynnu.

**Rydym yn argymell diddymu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i gymeradwyo hebryngwyr yn y sector amatur.** Bydd hebryngwyr yn y sector proffesiynol yn parhau i fod angen cymeradwyaeth awdurdod lleol.

[5] Rheoliad 12 o'r Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968

**Addysg i blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau**

1.14 Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu na chaiff awdurdod lleol roi trwydded i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad oni fydd yn fodlon na fydd addysg y plentyn yn dioddef [6]. Os argymhellir y dylid gwneud trefniadau i'r plentyn gael gwersi preifat, yna ceir gofynion manwl ynglŷn ag amserau o'r dydd a dyddiau'r wythnos y dylid cynnal y gwersi. Fel y nododd adolygiad polisi 2010, mae rhieni, swyddogion trwyddedu ac eraill wedi mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg hyblygrwydd o ran amseru ac ansawdd y profiad dysgu pan fydd plant yn cael eu tiwtora y tu allan i'r ysgol.

**Rydym yn argymell y dylid cadw gofyniad am 15 awr o wersi'r wythnos, ond bod angen hyblygrwydd o ran yr amser a'r dyddiau y gellir eu darparu.**

1.15 Nid ydym yn argymell deddfu ynghylch pa gymwysterau sy'n ofynnol i diwtoriaid, nag ar ddilyn y cwricwlwm. Fel mater o arfer da, rydym yn argymell y dylai tiwtoriaid feddu ar gymwysterau addas ar gyfer addysgu, ac y dylid cadw cysylltiad rhwng y tiwtor a'r ysgol i hybu perthnasedd ac ansawdd y dysgu a ddarperir. Ond materion i rieni, athrawon a chynhyrchwyr yw'r rhain, nid i'r wladwriaeth eu pennu.

**Trwyddedu plant ar gyfer perfformio dramor**

1.16 Mae deddfwriaeth 1933 yn nodi'r broses sy'n rhaid i gynhyrchydd ei dilyn er mwyn gwneud cais am drwydded i fynd â phlant dramor i berfformio[7]. Yn gyntaf, rhaid iddynt gyflwyno'r cais i brif swyddog yr heddlu yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw, iddo allu cynnig unrhyw wrthwynebiadau, cyn anfon y cais i lys ynadon. Mae cynhyrchwyr ac asiantiaid, a'r nifer fach o lysoedd ynadon sy'n ymdrin â cheisiadau trwyddedu, yn dweud wrthym fod y broses yn gymhleth ac yn fiwrocratiaeth ddiangen. Nid yw'n ofynnol i ynadon geisio barn yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw, na rhoi gwybod i'r awdurdod pan fydd trwydded wedi'i rhoi neu ei gwrthod.

**Rydym yn argymell mai'r awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am drwyddedu plant o'u hardal ar gyfer perfformio dramor.**

**Diddymu biwrocratiaeth a phwerau diangen**

1.17 Rydym yn bwriadu ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i gynhyrchydd wneud cais am drwyddedau perfformio. Pan fydd angen trwydded, dylai'r cais fod ar ffurflen safonol, wedi'i mabwysiadu gan bob awdurdod lleol, ac yn seiliedig ar asesiad risg. Byddai hyn yn symleiddio'r broses ymgeisio, yn enwedig os yw cynhyrchydd yn dymuno recriwtio o ardaloedd gwahanol. Byddai'n gymorth i awdurdodau lleol wrth asesu ceisiadau, ac yn cyflymu'r broses drwyddedu lle mae'r risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn yn isel, neu wedi'u rheoli'n dda. Dylai awdurdodau lleol geisio prosesu ceisiadau syml o fewn deg diwrnod gwaith.

1.18 Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys amryw o bwerau nad ydym yn eu hystyried yn briodol nac yn angenrheidiol. Er enghraifft, gall awdurdod lleol bennu amodau

[6] Rheoliad 10(1) (diwygiwyd gan O.S. 1998/1728)
[7] Adran 25 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

ynglŷn â sut y dylid ymdrin ag arian sy'n cael ei ennill am berfformiad y plentyn. Credwn y dylai hyn fod yn fater i'r plentyn a'i rieni ei benderfynu.

1.19 Mae gan awdurdodau lleol 'bwerau mynediad'[8] hefyd sy'n awdurdodi swyddogion i fynd ar safle lle credant y gallai plentyn fod yn cymryd rhan mewn perfformiad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn â'r angen am y pwerau hyn, gan y gellid gwneud hawl i archwilio safleoedd yn un o amodau'r drwydded.

**Rydym yn argymell y dylid diddymu pwerau ymyrraeth y wladwriaeth mewn materion y dylai rhieni a chwmnïau cynhyrchu eu penderfynu.**

## Gorfodi a chosbau

1.20 Bydd y newidiadau a argymhellwn i'r trefniadau trwyddedu yn caniatáu i awdurdodau lleol dreulio rhagor o amser yn cynnal archwiliadau ac yn rhoi camau gorfodi ar waith. Dylai archwiliadau fod wedi'u targedu ac yn gymesur â'r risg, gyda'r pwyslais ar annog a chefnogi arfer gorau.

1.21 Mae methiant i gydymffurfio â'r gofyniad i wneud cais am drwydded neu i gydymffurfio â'i hamodau yn drosedd. Mae'r ddeddfwriaeth[9] yn nodi'r troseddau hyn a rhai eraill cysylltiedig, ynghyd â'r cosbau am fethu cydymffurfio. Rydym yn ymwybodol fod rhai erlyniadau wedi bod, ond mae prinder tystiolaeth ynglŷn â faint o weithgaredd gorfodi sy'n digwydd yn genedlaethol, gan gynnwys dileu trwyddedau yn sgil archwiliadau. Drwy'r ymgynghoriad hwn, gofynnwn am wybodaeth ynglŷn â gweithgarwch gorfodi. Hefyd, hoffem glywed barn pobl ynglŷn â'r ffordd orau i awdurdodau lleol sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion.

## Casgliad

1.22 Wrth ddatblygu'r argymhellion hyn, rydym wedi adeiladu ar waith helaeth ac ystyriol yr adolygiad polisi cynharach o dan arweiniad Sarah Thane, a mewnbwn y grŵp cynghori oedd yn cynnwys aelodau o drawstoriad o feysydd gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu proffesiynol ac amatur, darlledwyr ac awdurdodau lleol. Ceir cytundeb cyffredinol fod angen diweddaru'r ddeddfwriaeth, ei hegluro a'i symleiddio, ac y byddai hyn yn creu rhagor o gyfleoedd i blant gael cymryd rhan mewn gweithgareddau perfformio. Dyma y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni. Mae'r argymhellion yn newid cryn dipyn ar y drefn flaenorol, ac yn lleihau'r baich rheoleiddio yn gyffredinol.

[8] Adran 28 o Ddeddf 1933
[9] Adran 40 o Ddeddf 1963 ac Adrannau 23, 26 a 28 o Ddeddf 1933

# 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu amddiffyn plant o oedran ysgol gorfodol[10] sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau yn dyddio o'r 1960au. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd wedi ehangu'n sylweddol ers hynny, yn enwedig gyda *genres* a thechnolegau cyfryngol newydd yn cynnig rhagor o ffyrdd i blant allu perfformio. Mae'r ddeddfwriaeth yn hen ffasiwn bellach, ac yn annhebygol o fod yn addas ar gyfer *genres* newydd a mathau newydd o weithgareddau cyfryngol a allai ddatblygu yn y dyfodol.

2.2 Mae'r drefn reoleiddio yn berthnasol pan fydd plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, o gymdeithasau drama amatur cymunedau lleol i sioeau'r West End, teledu oriau brig a chynyrchiadau ffilm mawr. Mae cwestiynau'n codi ynglŷn â pha mor berthnasol yw'r rheoliadau i rai mathau o gyfryngau ar-lein, megis clipiau sydd ar gael dros y rhyngrwyd. Hefyd, gan fod y rheoliadau wedi'u llunio ar gyfer y math o weithgareddau roedd plant yn eu gwneud bron hanner can mlynedd yn ôl, roedd y farn ynglŷn â'r oedran y câi plant gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn wahanol i'r farn gyffredinol y dyddiau hyn.

2.3 Fel y mae darlledwyr, cwmnïau cynhyrchu proffesiynol ac amatur a swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol yn ei ddweud wrthym, mae yna ofynion yn y ddeddfwriaeth sy'n ddibwrpas, ond sy'n creu baich gwaith a chostau drwy'r angen i gydymffurfio â nhw. Gall y fiwrocratiaeth sy'n rhan o broses trwyddedu plant fod yn arbennig o feichus i grwpiau amatur, nad yw'r adnoddau angenrheidiol ganddynt o reidrwydd ar gyfer dilyn y drefn. O ganlyniad i hyn, mae rhai grwpiau amatur wedi dweud eu bod yn osgoi llwyfannu dramâu a chynyrchiadau sy'n cynnwys plant.

2.4 Gall cymryd rhan mewn perfformiadau fod yn hwyl ac yn gyffrous. Gall y profiad fod o fantais wirioneddol o ran dysgu sgiliau newydd, datblygu dawn, ac adeiladu hyder. Ni ddylid amddifadu plant o'r profiadau hyn oherwydd biwrocratiaeth. Mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth, ond nid yw gwaith papur yn eu diogelu rhag niwed; oedolion cyfrifol sy'n gwneud hynny. Mae'n bwysig gwneud trefniadau i sicrhau lles corfforol a seicolegol plant mewn perfformiadau, ond dylai'r rhain fod yn gymesur â'r risg sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Er enghraifft, pan fydd teuluoedd yn cymryd rhan mewn cynhyrchiad cymunedol wedi'i drefnu gan grŵp amatur profiadol, gall y risg fod yn gymharol isel, ond gallai ffilm wedi'i saethu ar leoliad gan gwmni cynhyrchu newydd fod yn fater gwahanol iawn.

2.5 Gall y fiwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth y trefniadau trwyddedu presennol gymylu synnwyr cyffredin, ac arwain at orddibyniaeth ar flychau i'w ticio yn hytrach na chrebwyll cadarn. Po fwyaf y mae'r rheolau trwyddedu hynny yn ei fynnu, mwyaf oll yw'r risg eu bod yn meithrin agwedd rhy hunanfodlon. Bwriadwn symud ffocws y system drwyddedu perfformio oddi wrth y fiwrocratiaeth hon, a chyflwyno fframwaith rheoleiddio cymesur yn ei lle.

2.6 Ein nod yw rhyddhau swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol o afael gwaith papur a phrosesau diangen, i'w galluogi i ganolbwyntio ar reoli risg i blant drwy

[10] Daw'r oedran ysgol gorfodol i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y bydd y plentyn yn cyrraedd 16 oed

archwiliadau a gweithgaredd gorfodi wedi'u targedu'n well. Y swyddogion hyn hefyd sydd yn y sefyllfa orau i ddefnyddio gwybodaeth ac ymwybyddiaeth leol er mwyn adnabod y risgiau hynny a rhoi camau gorfodi ar waith lle bo angen. Maent hefyd mewn sefyllfa dda i hyrwyddo rhannu arferion da, er mwyn sicrhau bod gweithgareddau perfformio sy'n cynnwys plant yn cynnig profiadau cadarnhaol.

2.7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ar argymhellion i:

- Egluro pryd y bydd angen trwydded er mwyn i blentyn gael cymryd rhan mewn perfformiad, a bod hyn yn cynnwys gwaith modelu am dâl;
- Diddymu cyfyngiadau ar y gweithgareddau y gellir trwyddedu plant o dan 14 oed i gymryd rhan ynddynt;
- Cadarnhau mai cyrff llywodraethu'r gwahanol chwaraeon sy'n gyfrifol am ddiogelu plant 13 oed a hŷn mewn chwaraeon am dâl;
- Symleiddio'r argymhellion ar gyfer trwyddedu plant i gymryd rhan mewn perfformiadau;
- Ymestyn y broses gymeradwyo bresennol wedi'i symleiddio er mwyn i blant gymryd rhan mewn digwyddiadau mawr 'un-tro' i gynnwys rhai y mae plant 13 a hŷn yn cael eu talu i gymryd rhan ynddynt;
- Symleiddio'r broses i grwpiau amatur allu gwneud cais am gymeradwyaeth i gynnwys plant mewn perfformiad;
- Lleihau nifer y plant y caiff un hebryngwr ofalu amdanynt ar y tro;
- Sicrhau bod plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau neu'n gwneud gwaith modelu yn derbyn addysg addas wrth wneud hynny;
- Rhesymoli'r broses ar gyfer trwyddedu plant i fynd dramor i berfformio neu i fodelu;
- Diddymu unrhyw fiwrocratiaeth, prosesau a phwerau diangen;
- Diwygio'r cosbau troseddol am fethu cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sydd â'r nod o sicrhau lles plant sy'n perfformio a gwneud gwaith modelu.

2.8 Mae'r argymhellion hyn yn newid y trefniadau cyfredol yn sylweddol, a bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i'w rhoi mewn grym. Rydym yn argymell fframwaith cyfreithiol newydd sy'n ei gwneud yn haws i ddiweddaru'r gofynion trwyddedu, er mwyn i ni allu cadw i fyny â datblygiadau newydd mewn technoleg a mathau newydd o gyfryngau.

# 3. Cefndir a chyd-destun

### Deddfwriaeth

3.1 Sefydlwyd rheoliadau a chanllawiau 1968 sy’n llywodraethu plant sy’n perfformio o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963. Nod y ddeddfwriaeth oedd sicrhau bod trefniadau’n cael eu gwneud i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles plant a oedd yn cymryd rhan mewn dramâu, sioeau a darlledu.

3.2 Mae’r ddeddfwriaeth sylfaenol yn nodi o dan ba amgylchiadau y dylai cwmni cynhyrchu wneud cais am drwydded er mwyn i blentyn gael cymryd rhan mewn perfformiad. Mae’r rheoliadau’n nodi’r amodau trwyddedu, er enghraifft oriau, seibiannau, amser ar gyfer addysg a rheolau a gofynion penodol eraill. Mae hefyd yn rhoi amryw o bwerau i awdurdodau lleol mewn perthynas â gweinyddu’r system drwyddedu, er enghraifft, cânt bennu sut y dylid cynilo peth o enillion y plentyn am berfformiad.

3.3 Mae datblygiadau eraill ers y 1960au wedi cael effaith ar y fframwaith ar gyfer diogelu plant sy’n perfformio. Ym 1994, llofnododd y Deyrnas Unedig Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Amddiffyn Pobl Ifanc.[11] Ym 1998, er mwyn gweithredu gofynion a gytunwyd yn y Gyfarwyddeb Ewropeaidd, cyflwynwyd deddfwriaeth ddomestig sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i gael trwydded gan yr awdurdod lleol perthnasol cyn i blentyn gael cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol neu artistig, boed y plentyn yn cael ei dalu ai peidio. Mae’r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi bod angen trwydded ar gyfer gweithgareddau chwaraeon neu fodelu os yw’r plentyn yn cael ei dalu.

### Diogelu mewn Chwaraeon

3.4 Ers cyflwyno’r ddeddfwriaeth hon, cafwyd datblygiadau ym maes llywodraethu a rheoli chwaraeon. Yn 2001, lansiwyd yr Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon. Mae’n cael ei hariannu ar y cyd gan Sport England a’r NSPCC, ac mae wedi rhestru’r Safonau ar gyfer Diogelu a Gwarchod Plant mewn Chwaraeon sy’n ofynnol i gyrff llywodraethu cenedlaethol eu mabwysiadu.

### Swyddogaeth Ofcom

3.5 Yn sgil Deddf Cyfathrebu 2003, crëwyd y rheolydd darlledu annibynnol Ofcom, gyda dyletswydd statudol i sicrhau bod plant o dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu mewn perthynas â chynnwys y cyfryngau darlledu. Mae Cod Darlledu Ofcom a’r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer diogelu plant sy’n cymryd rhan mewn rhaglenni radio a theledu.

Ceir dwy reol yng Nghod Darlledu Ofcom sy’n berthnasol i rai o dan ddeunaw oed sy’n cymryd rhan ym mhob rhaglen deledu a radio:

[11] Cyfarwyddeb 94/33/EC ar amddiffyn pobl ifanc yn y gwaith, Mewn perthynas â phlant sy’n cael eu cyflogi mewn gweithgareddau diwylliannol, artistig, chwaraeon neu weithgareddau hysbysebu, rhoddwyd y gofynion mewn grym o dan Reoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 1998 (O.S. 1998/276) a oedd yn diwygio’r ddeddfwriaeth flaenorol yn Neddfau Plant a Phobl Ifanc 1933 ac 1963.

Rheol 1.28: “Rhaid gofalu’n briodol am les corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy’n cymryd rhan neu’n cael eu cynnwys fel arall mewn rhaglenni. Rhaid gwneud hyn heb ystyried unrhyw ganiatâd a roddwyd gan yr un sy’n cymryd rhan neu gan riant, gwarcheidwad neu gan unigolyn arall sydd dros ddeunaw oed yn lle rhiant.”

Rheol 1.29: “Rhaid peidio ag achosi gofid neu bryder diangen i bobl dan ddeunaw oed drwy eu cynnwys mewn rhaglenni neu drwy ddarlledu’r rhaglenni hynny.”

Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau manwl i gyd-fynd â’r Cod Darlledu[12]. Y rheolau a’r canllawiau hyn yw’r brif ffynhonnell ddiogelwch i bobl ifanc sy’n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio o unrhyw fath.

**Gweithgareddau modern ac agweddau modern at blant**

3.6 Mae amrywiaeth a natur y gweithgareddau y bydd plant yn cymryd rhan ynddynt wedi datblygu’n sylweddol ers y 1960au. Mae gan ddarlledu le mwy blaenllaw yn ein cymdeithas a’n diwylliant, ac mae’r cynnydd ym mhoblogrwydd teledu realiti a chystadlaethau talent wedi newid a herio ein barn ynglŷn â beth sy’n weithgareddau priodol ar gyfer plant. Hefyd, ceir rhagor o ffyrdd o recordio a rhannu perfformiadau. Y norm bellach, yn hytrach na’r eithriad, yw bod y cyhoedd yn gyffredinol yn gallu recordio gweithgareddau a rhannu’r recordiadau hynny’n syth â chynulleidfa dorfol dros y rhyngrwyd.

3.7 Dros yr hanner can mlynedd diwethaf, newidiodd y farn ynglŷn â pha oedran sy’n addas i blant gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, yn ogystal â’n dealltwriaeth o’r peryglon i les plant. Er enghraifft, rydym yn fwy ymwybodol o effeithiau seicolegol posibl ar blant sy’n codi o’u cynnwys mewn rhai mathau o weithgareddau. Daw lledaeniad recordiadau digidol a’r rhyngrwyd â phryderon newydd yn eu sgil y gallai deunydd wedi’i recordio yn ystod plentyndod barhau i fodoli ymhell wedi i’r plentyn dyfu’n oedolyn.

**Adolygiad o’r system**

3.8 Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd Sarah Thane (CBE, cyn Gadeirydd y Gymdeithas Deledu Frenhinol a chyn gynghorydd Ofcom) adolygiad archwiliadol o’r system a ystyriodd y posibilrwydd o lunio set o reoliadau modern, effeithiol a chymesur ar gyfer y maes a gwnaeth argymhellion a groesawyd gan y Llywodraeth ar y pryd[13]. Awgrymodd yr adolygiad newidiadau er mwyn egluro’r mathau o berfformiadau fyddai’n galw am eu trwyddedu; symleiddio’r broses drwyddedu; adolygu’r angen i drwyddedu’r sector amatur; cynyddu’r ffocws ar addysg plant; a gwella effeithiolrwydd hebryngwyr plant.

3.9 Mae argymhellion y Llywodraeth yn adeiladu ar y canfyddiadau yng ngwaith Sarah Thane a’r grŵp cynghori, ac yn nodi fframwaith modern ar gyfer gwarchod diogelwch a lles plant sy’n perfformio a fydd yn diddymu baich gwaith biwrocrataidd

[12] Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau manwl i fynd gyda’r Cod Darlledu: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code

[13] *Exploratory review of the system of regulating child performance*, Adroddiad gan Sarah Thane, CBE. Mawrth 2010

gormodol ac a fydd yn adlewyrchiad gwell o’r gwahanol ffyrdd y bydd plant yn perfformio yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Perthnasedd i’r DU**

3.10 Mae’r argymhellion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau i’r trefniadau yng Nghymru a Lloegr. Bydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon drefniadau tebyg ond ar wahân ar gyfer diogelu plant sy’n perfformio.

# 4. Asesu effaith newidiadau

### Asesiadau effaith

4.1 Mae gofyn cael asesiadau effaith rheoleiddiol i gefnogi argymhellion i newid deddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod effeithiau a chostau'r newidiadau arfaethedig wedi eu hystyried yn llawn, a bod manteision gwneud y newidiadau'n cyfiawnhau'r gost o'u gwneud. I gyd-fynd â'r ddogfen hon, ceir pedwar asesiad effaith drafft o'r cynigion ar gyfer:

- i) symleiddio'r gofynion trwyddedu;
- ii) symleiddio'r broses ar gyfer grwpiau amatur;
- iii) gostwng uchafswm nifer y plant yng ngofal hebryngwr o ddeuddeg i ddeg;
- iv) rhesymoli'r broses drwyddedu ar gyfer mynd â phlant dramor.

4.2 Gyda'i gilydd, mae'r argymhellion yn golygu llai o gostau a baich gwaith i awdurdodau lleol. Defnyddir tystiolaeth a gesglir o'r ymgynghoriad hwn i ddatblygu'r asesiadau hyn ymhellach. Byddwn hefyd yn datblygu asesiad o'r effaith y mae'r newidiadau'n debygol o gael ar gydraddoldeb. Cyhoeddir yr asesiad hwn wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben ac wedi i'r ymatebion gael eu dadansoddi.

4.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bwriadwn gynnal nifer fach o weithdai i drafod yr argymhellion. Bydd y rhain yn gyfle i nodi tystiolaeth ynglŷn ag arferion cyfredol a goblygiadau'r trefniadau newydd y disgwyliwn eu rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, neu mewn cynnal digwyddiad o'r fath hyd yn oed, anfonwch e-bost atom yn

CONSULTATIONchildperformance@education.gsi.gov.uk
Os ydych wedi eich lleoli yng Nghymru, e-bostiwch
'CSD3SafeguardingChildren@wales.gsi.gov.uk

4.4 Bwriedir i'r argymhellion er lles plant – rydym eisiau iddynt gael cyfle i gymryd rhan mewn perfformiadau – ond gyda'r trefniadau sydd eu hangen i warchod eu diogelwch a'u lles wrth iddynt wneud hynny. Rydym yn casglu barn plant drwy holiadur ar wahân, sydd hefyd ar gael ar wefannau ymgynghori'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. Gallai plant gwblhau'r holiadur yn unigol, neu gyda'u rhieni, neu gall ysgolion neu sefydliadau ei ddefnyddio gyda grwpiau o blant, a dylid ei ddychwelyd drwy e-bost i'r cyfeiriad uchod, neu ei bostio i:

Ymgynghoriad ar Blant sy'n Perfformio/ Child Performance Consultation
Department for Education
Targeted Safeguarding Policy Unit
Sanctuary Buildings Level 1,
Great Smith Street
London SW1P 3BT

Neu

Yr Ymgynghoriad ar Berfformiadau Plant
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# 5. Cwmpas gofynion trwyddedu

5.1 Ni cheir diffiniad o 'berfformiad' at ddibenion trwyddedu. Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o'r amgylchiadau sy'n galw am drwydded. Fodd bynnag, gellir sicrhau mwy o eglurder drwy ddiweddaru'r categorïau gweithgaredd sy'n cael eu cynnwys, a diffinio eithriadau'n eglur ar gyfer gweithgareddau na ddylid bod angen eu trwyddedu. Yr egwyddor sylfaenol yw y bydd angen trwydded lle bynnag y bydd plant yn wynebu risg uwch na'r lefel a wynebant yn eu bywydau fel arfer, drwy gael eu rhoi mewn sefyllfa artiffisial a ddyfeisiwyd er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol. Nodir y gweithgareddau yr ydym yn argymell eu heithrio yn adran 6.

**Gweithgareddau sy'n galw am drwydded**

5.2 Yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn Adran 6, rydym yn argymell y bydd yr angen am drwydded yn parhau pan fydd plentyn o oedran ysgol gorfodol yn:

- perfformio i gynulleidfa sy'n talu (ac eithrio lle bydd y perfformiad wedi cael cymeradwyaeth Corff o Bobl, neu os yw grŵp wedi cael tystysgrif cofrestru perfformiad amatur gyfredol, fel yr argymhellir yn adran 8);
- perfformio mewn mannau a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol (ac eithrio lle bydd y perfformiad wedi derbyn cymeradwyaeth Corff o Bobl, neu os yw'r grŵp wedi cael tystysgrif cofrestru perfformiad amatur gyfredol, fel yr argymhellir yn adran 8);
- ymddangos mewn deunydd i'w ddarlledu'n gyhoeddus neu ddeunydd a ffilmiwyd i'r diben o'i ddarlledu'n gyhoeddus yn y dyfodol; a byddai hyn yn cynnwys -
- - ymddangos mewn deunydd ar y rhyngrwyd os oes bwriad i elwa'n ariannol yn uniongyrchol drwy i'r cyhoedd ei wylio; neu -
- gael ei roi mewn sefyllfa artiffisial a ddyfeisiwyd er mwyn creu effaith ddramatig ac felly sy'n creu risg na fyddai'r plentyn yn ei hwynebu yn ei fywyd bob dydd;
- cymryd rhan mewn gwaith modelu am dâl, gan gynnwys hysbysebu a lluniau llonydd ar gyfer gwaith cyhoeddusrwydd;
- o dan 13 oed ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon am dâl.

5.3 Bydd cyfeiriadau at "daliad" yn cynnwys nawdd masnachol neu nawdd ariannol arall a nwyddau yn ogystal â chyflog. Bydd unrhyw gymorth ariannol mwy nag ad-dalu treuliau rhesymol yn cael ei ddehongli fel taliad.

5.4 Byddai gofyn cael trwydded ar gyfer ymarferion gwisgoedd ac ymarferion sy'n cael eu ffilmio, eu darlledu neu sy'n digwydd o flaen cynulleidfa sy'n talu. Ni fyddai angen trwydded ar gyfer ymarferion nad ydynt yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu ac ymarferion nad ydynt yn cael eu cynnal ar gyfer cynulleidfa sy'n talu.

5.5 Lleisiwyd pryderon yn ystod y blynyddoedd diwethaf y gallai rhai rhaglenni teledu sy'n cynnwys plant, megis fformatau realaeth, beri risg go iawn o ganlyniadau negyddol i'r plant sy'n cymryd rhan. Er bod pob cynnwys a ddarlledir yn cael ei gwmpasu gan God Darlledu statudol Ofcom, sy'n nodi rheolau i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n addas, rydym yn argymell y bydd yr angen am drwydded yn parhau os yw plentyn yn cael ei roi mewn amgylchiadau artiffisial a ddyfeisiwyd er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol.

5.6 Fel rheol, ni fyddai gofyn trwyddedu rhaglenni 'pry ar y wal', rhaglenni dogfen ffeithiol na chyfweliadau â phlant lle nad yw'r amgylchiadau wedi'u ffugio er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol. Fodd bynnag, ceir rhaglenni a ddisgrifir fel rhaglenni dogfen arsylwadol neu ffeithiol sydd mewn gwirionedd yn cael eu ffugio er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol. Yn yr achosion hyn, byddai angen trwyddedau. Dylai cynhyrchwyr ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol bob amser, a mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu a ddylid trwyddedu'r plant. Bydd eu penderfyniad yn dibynnu ar natur y profiad i'r plentyn yn ystod y broses gynhyrchu, ac i ba raddau y mae'n creu risgiau i'w les.

5.7 Diwygiwyd Adran 37 o Ddeddf 1963 gan Reoliadau Plant (Eu Hamddiffyn yn y Gwaith) 1998. Effaith y diwygiad oedd cynnwys plant sy'n cymryd rhan mewn gwaith modelu am dâl a digwyddiadau chwaraeon am dâl yn y drefn drwyddedu.[14] Lleisiwyd pryderon ynglŷn â'r amodau y cafodd rhai plant sy'n modelu eu cyflogi ynddynt, yn enwedig dramor. O ystyried y pryderon sy'n parhau ynglŷn â'r risgiau i'w diogelwch a'u lles, rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad trwyddedu ar gyfer plant sy'n modelu.

5.8 Mae gofyn i bob corff chwaraeon cydnabyddedig fabwysiadu'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon, a restrir gan yr Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Sport England a'r NSPCC). Nod cyrff llywodraethu chwaraeon cydnabyddedig yw meithrin dawn sêr y byd chwaraeon yn y dyfodol. Mae diogelwch a lles plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon proffesiynol o'r pwys mwyaf i'r nod hwnnw, ochr yn ochr ag arweiniad, mentora a sylw gofalus i ddeiet, maeth, hyfforddiant, a datblygiad corfforol a seicolegol. Gall chwaraeon cystadleuol fod yn eithriadol o galed, yn feddyliol yn ogystal â chorfforol. Mae plant 13 oed a hŷn sy'n cael eu talu i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon yn fwy tebygol o fod â'u bryd ar yrfa yn y byd chwaraeon. Dylai cyrff â'r arbenigedd angenrheidiol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu'r pecyn cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i gyflawni eu hamcanion a chystadlu ar y lefelau uchaf. Felly bwriadwn ddiddymu'r galw am drwydded awdurdod lleol er mwyn i blant 13 oed a hŷn gael cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon am dâl.

5.9 Gallai gweithgareddau nad yw Sport England yn eu cydnabod ac na chânt eu cydnabod fel chwaraeon Olympaidd gael eu categoreiddio fel perfformiadau sy'n galw am eu trwyddedu gan yr awdurdod lleol.

5.10 Ni chynhwyswyd cynyrchiadau amatur yn y rhestr o weithgareddau sy'n galw am drwydded am ein bod yn argymell sefydlu cynllun cofrestru perfformiadau amatur

[14] (adran 37(1)(b)).

newydd yn lle'r trefniadau trwyddedu a chymeradwyo presennol. Ceir mwy o fanylion am yr argymhelliad hwn yn adran 8.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y gweithgareddau ym mharagraff 5.2 yn y rhestr o rai sy'n galw am drwydded?

A ydych chi'n credu fod yna weithgareddau eraill y dylid eu cynnwys yn y rhestr o rai sy'n galw am drwydded?

A ydych chi'n credu y dylid eithrio unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn o'r gofynion trwyddedu? Os felly, rhowch eich rhesymau.

# 6. Eithriadau rhag trwyddedu

### Gweithgareddau i'w heithrio

6.1 Rydym yn argymell eithrio'r gweithgareddau canlynol o'r gofyniad am drwydded, am nad ydym yn credu fod trwydded yn angenrheidiol, yn gymesur na'n ymarferol yn yr achosion hyn, a gallai'r gofyniad gyfyngu ar gyfleoedd i blant:

- pan fydd perfformiad wedi'i drefnu gan ysgol neu Academi, gan gynnwys perfformiadau oddi ar safle'r ysgol lle bydd athro'n mynd gyda'r plentyn;
- pan na fydd cymryd rhan yn y gweithgaredd yn peri unrhyw risg sy'n fwy na'r risg y bydd plentyn yn ei hwynebu yn ei fywyd bob dydd, naill ai yn ystod y gweithgaredd, neu pan fydd y gweithgaredd yn cael ei ddarlledu, a lle nad yw'r plentyn yn cael ei dalu am gymryd rhan yn y gweithgaredd;
- pan fydd yn cynnwys creu deunydd a gynhyrchir gan y plentyn neu ei riant lle na fydd bwriad i'w lanlwytho a'i rannu er mwyn gwneud elw;
- pan fydd y cynhyrchydd wedi cael cymeradwyaeth Corff o Bobl gan yr awdurdod lleol ar gyfer digwyddiad penodol (gan gynnwys lle bydd plentyn dros dair ar ddeg oed yn cael ei dalu am gymryd rhan yn y digwyddiad hwnnw) (gweler adran 8);
- pan fydd cynhyrchydd wedi cael tystysgrif cofrestru perfformiad amatur gyfredol (gweler adran 8) a lle nad yw'r plentyn yn cael ei dalu i gymryd rhan yn y perfformiad;
- perfformiadau heb eu cynllunio, er enghraifft, clyweliadau di-dâl, pan nad yw natur y gweithgaredd yn ei gwneud hi'n ymarferol i gael trwydded o flaen llaw;
- am y pedwar diwrnod cyntaf y bydd plentyn yn perfformio mewn unrhyw gyfnod o chwe mis os nad yw'r plentyn yn cael ei dalu;
- pan fydd plentyn 14 oed neu hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon cydnabyddedig am dâl neu'n ddi-dâl. (Dim ond lle bydd plentyn o dan 14 oed yn cael ei dalu i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon cydnabyddedig y bydd angen trwydded awdurdod lleol. Fel arall, efallai y bydd galw am drwydded berfformio os yw'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd nad yw'n weithgaredd chwaraeon cydnabyddedig).

### Ysgolion ac academïau

6.2 Mae ysgolion ac athrawon yn gyfrifol am ddiogelu eu disgyblion mewn gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan yr ysgol neu'r academi, gan gynnwys gweithgareddau lle bydd athrawon yn mynd gyda disgyblion oddi ar safle'r ysgol. Nid ydym yn argymell y dylai hyn newid.

**Rhaglenni dogfen arsylwadol**

6.3 Yn gyffredinol, ni fyddai rhaglenni 'arsylwadol', rhaglenni ffeithiol a rhaglenni dogfen, a rhaglenni newyddion sy'n ffilmio plant wrth eu bywydau bob dydd (hynny yw, heb fod mewn sefyllfa artiffisial a ddyfeisiwyd er mwyn creu effaith ddramatig neu olygyddol) yn cynyddu'r risg i blant ac ni ddylai fod angen eu trwyddedu. Dylai'r ail eithriad yn y rhestr uchod sicrhau hyn. Hyd yn oed lle na fydd angen trwydded, dylai cynhyrchwyr ystyried lles y plentyn a byddem yn disgwyl iddynt fabwysiadu arfer da, er enghraifft drwy gael ardal ar gyfer 'seibiant', lle gall y plentyn gael llonydd, neu drwy ddefnyddio hebryngwr, hyd yn oed os nad yw'r gyfraith yn mynnu hynny'n benodol, er enghraifft mewn rhaglenni dogfen ffeithiol a rhaglenni newyddion. Rhaid i bob darlledwr gydymffurfio â Chod Ofcom ac mae gan Ofcom bŵer i osod sancsiynau statudol ar ddarlledwyr.

**Clyweliadau**

6.4 Mewn clyweliadau, ni fydd bob amser yn bosibl adnabod y cyfranogwyr o flaen llaw. Lle bo hyn yn wir, drwy broses glyweliad agored, ni fyddai'n bosibl i gynhyrchwyr wneud cais am drwydded ar gyfer y cyfranogwyr nad yw'n gwybod amdanynt. Anaml y bydd hyn yn digwydd; mae llawer o glyweliadau sy'n cynnwys plant yn galw am sgrinio cyfranogwyr o flaen llaw neu broses ymgeisio, ac yn yr amgylchiadau hyn, os yw'r gweithgaredd angen ei drwyddedu fel arall, disgwyliwn y dylid gwneud cais am drwydded i'r plentyn gymryd rhan. Ni fyddem fel rheol yn disgwyl i sesiwn gastio fod angen ei thrwyddedu. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i gynhyrchwyr ddefnyddio pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch, ac urddas, y plant sy'n cymryd rhan boed y cynhyrchwyr yn gwybod pwy ydynt o flaen llaw ai peidio.

**Deunydd wedi'i gynhyrchu gan y plentyn**

6.5 Mae deunydd a chynnwys y bydd plentyn neu riant yn ei greu gartref, nad yw'n berfformiad am dâl, ac yna'n ei rannu ar y rhyngrwyd, yn weithgaredd personol. Mae'n rhan o fywyd teuluol ac ni chredwn fod hyn yn fater ar gyfer ymyrraeth y wladwriaeth. Mae angen i rieni ysgwyddo cyfrifoldeb dros les eu plant a nhw, ynghyd ag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill, sydd yn y sefyllfa orau i nodi unrhyw broblemau a rhoi'r cymorth a'r cyngor sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i'w cadw'n ddiogel ac yn rhydd o niwed.

6.6 Yn aml, ni fydd plant a phobl ifanc yn deall canlyniadau rhannu delweddau a chynnwys arall dros y rhyngrwyd, sy'n gallu bod yn niweidiol, hyd yn oed os mai ar gyfer un person y'u bwriadwyd, ac nid ydynt yn sylweddoli fod gan gynnwys wedi'i lanlwytho ôl troed digidol sy'n gallu para ymhell wedi i'r cynnwys gael ei ddileu. Mae gan y Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein raglen a enillodd wobrau, 'Think U Know', sy'n cyrraedd cannoedd o filoedd o blant ar draws y wlad bob blwyddyn â'i negeseuon diogelwch. Gydag aelodau o Childnet a Chyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd, maen nhw'n gweithio i ledaenu negeseuon diogelwch effeithiol i blant a rhieni ynglŷn â gweithgarwch rhannu ar-lein. Anogir rhieni i ddefnyddio'r offer technegol a'r cyngor ar ddiogelwch sydd ar gael ar unrhyw ddyfais neu wasanaeth rhyngrwyd y gallent fod yn eu defnyddio.

**Y rheol pedwar diwrnod**

6.7 Os na chaiff plentyn ei dalu (ar wahân i dreuliau), nid oes gofyn cael trwydded am hyd at bedwar diwrnod o berfformiadau mewn unrhyw gyfnod o chwe mis. Clywsom bryderon fod yr eithriad hwn rhag trwyddedu yn cael ei ddefnyddio weithiau i osgoi'r gyfraith, drwy beidio â thalu plant am rai perfformiadau er mwyn parhau i'w defnyddio heb drwydded. Nid oes gennym dystiolaeth gadarn fodd bynnag fod hyn yn digwydd, nac i ba raddau y gallai fod yn digwydd.

6.8 Mae cynnwys sy'n cael ei ddarlledu'n dod o dan God Darlledu statudol Ofcom beth bynnag am y rheol pedwar diwrnod. Ar gyfer mathau eraill o berfformiad, pryderwn y byddai diddymu'r rheol hon, neu leihau nifer y dyddiau cyn y byddai angen trwydded, yn cynyddu nifer y ceisiadau trwyddedu, neu gallai gyfyngu ar gyfleoedd i blant gael cymryd rhan. Nid ydym yn bwriadu diddymu'r eithriad hwn, na lleihau nifer y dyddiau, gan nad ydym wedi gweld tystiolaeth i ddangos y byddai'n fuddiol i ni wneud hynny, nac y byddai unrhyw fudd damcaniaethol yn cyfiawnhau costau ychwanegol unrhyw newid o'r fath.

**Cymryd rhan mewn chwaraeon am dâl**

6.9 Rydym eisiau cynyddu cyfleoedd i blant gael cymryd rhan mewn chwaraeon. Gallai fod angen cymorth arbenigol ar blant sydd â dawn ym myd chwaraeon i ddatblygu'r ddawn honno, ac i fanteisio ar gyfleoedd proffesiynol priodol. Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau diogelwch a lles plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon am dâl, ac i ddatblygu a chefnogi eu dawn.

6.10 Mae gofyn i gyrff llywodraethu cenedlaethol pob gweithgaredd chwaraeon a gydnabyddir gan Sport England fabwysiadu'r Safonau ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon a restrir gan yr Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon. Bydd gan y cyrff llywodraethu arbenigedd ar y risgiau penodol sydd ynghlwm wrth eu gweithgaredd chwaraeon, yn enwedig ar y lefel broffesiynol. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod trefniadau angenrheidiol ac addas ar waith i ddiogelu plant 13 oed a hŷn sy'n cael eu talu i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon cydnabyddedig, a bod y ddawn honno'n cael ei meithrin.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n credu y dylem gadw'r rheol pedwar diwrnod, lleihau nifer y dyddiau yn y rheol, neu gael gwared ar y rheol?

Os ydych chi'n credu y dylid lleihau'r rheol yn hytrach na chael gwared arni, dywedwch sawl diwrnod y credwch y dylid eu caniatáu cyn bod angen trwydded.

Yn eich barn chi, ai cyrff llywodraethu chwaraeon, awdurdodau lleol, neu rywun arall ddylai fod yn gyfrifol am ddiogelu plant mewn chwaraeon? Rhowch eich rhesymau.

Sut all awdurdodau lleol sicrhau cysondeb drwy'r wlad o ran penderfynu pa weithgareddau sy'n galw am drwydded, yn eich barn chi, a pha rai ddylid eu heithrio?

A oes gweithgareddau neu amgylchiadau eraill y dylid eu heithrio rhag trwyddedu?

# 7. Newidiadau i drwyddedu

7.1 Mae’r cais am drwydded yn gofyn am lawer iawn o fanylion ynglŷn â’r plentyn, y gweithgaredd arfaethedig, y person fydd yn gofalu am y plentyn yn ystod y gweithgaredd, ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod angen gwybodaeth ategol gan ysgol y plentyn a’i feddyg teulu. Ceir gofynion llym ynglŷn â’r oedran y gellir trwyddedu plant i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau, nifer y dyddiau ac adegau o’r dydd y cânt gymryd rhan. Rhaid i swyddog trwyddedu’r awdurdod lleol wneud yn siŵr fod yr holl ofynion yn cael eu bodloni cyn y gall roi trwydded er mwyn i’r plentyn gael cymryd rhan.

7.2 Ceir rhai eithriadau i’r gyfraith drwyddedu, sydd â’r nod o leddfu’r gofynion ar gyfer grwpiau amatur, ond mae’r diwydiant ac awdurdodau lleol yn cytuno bod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhy gymhleth, ac nad yw’n ddigon hyblyg i adlewyrchu’r ffyrdd y gall plant fod yn perfformio heddiw. Mae’r argymhellion yn yr adran hon yn nodi’r newidiadau y bwriadwn eu gwneud er mwyn moderneiddio’r gofynion trwyddedu.

### Y broses ymgeisio

7.3 Rydym eisiau newid pwyslais system drwyddedu er mwyn i awdurdodau lleol allu treulio llai o amser ar waith gweinyddol a rhagor ar wneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â diogelu. Wrth wneud cais am drwydded, bydd gofyn i’r cynhyrchydd ddangos ei fod wedi cynnal asesiad risg realistig yn seiliedig ar ei wybodaeth am yr amgylchedd perfformio arfaethedig, wedi ystyried y rôl a’r gofynion, ac oedran a pha mor agored i niwed yw’r plentyn. Golyga hyn y bydd angen i ymgeiswyr ganolbwyntio ar faterion diogelu pwysig yn ystod camau cyntaf y broses o gynllunio’r perfformiad, yn hytrach na gorfod ystyried a newid eu cynlluniau ar ôl cyflwyno cais am drwydded.

7.4 Rydym yn argymell cynnwys ffurflen gais safonol am drwydded yn y rheoliadau. Byddwn hefyd yn mynnu bod asesiad risg yn cael ei gwblhau fel rhan o’r broses ymgeisio, ond ni fwriadwn bennu union ffurf yr asesiad risg yn y rheoliadau. Bydd risgiau yn amrywio yn ôl y gweithgaredd a’r plentyn dan sylw, felly rydym yn argymell y dylai ymgeiswyr ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth ystyried beth allai ddigwydd neu fynd o’i le, pa ffactorau a ystyriwyd a sut y gallant leihau neu leddfu’r risgiau. Byddai awdurdodau lleol wedyn yn cynnal archwiliadau yn seiliedig ar yr asesiadau risg a gyflwynir fel rhan o’r cais am drwydded.

7.5 Rhagwelwn y bydd awdurdodau lleol yn gallu prosesu ceisiadau trwyddedu’n gyflymach, gyda cheisiadau risg isel yn cael eu prosesu fel mater o drefn. Bydd hyn yn rhyddhau swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol i dreulio mwy o amser yn archwilio sut y mae cynhyrchwyr cynyrchiadau risg canolig i uchel yn bwriadu diogelu’r plant sy’n cymryd rhan, yn seiliedig ar y risgiau a nodwyd ganddynt. Gellir targedu archwiliadau a chamau gorfodi wedyn lle bydd fwyaf o’u hangen.

### Annibyniaeth artistig

7.6 Mae’n ofynnol i ddarlledwyr, o dan God Darlledu trylwyr Ofcom, i gymryd gofal dyledus er mwyn diogelu lles unrhyw gyfranogwyr o dan ddeunaw oed, sy’n cynnwys

plant sy'n cymryd rhan ym mhob math o raglen i'w darlledu. Yn unol â Chod Ofcom, rydym yn argymell y dylai'r broses drwyddedu gynnwys ystyried yr effaith ar blant ar ôl darlledu/perfformio ym mhob gweithgaredd. Dylai hyn gael ei ystyried yn asesiad risg y cynhyrchwyr a fydd yn rhan o'r cais am drwydded.

7.7 Mae angen i awdurdodau lleol feddwl beth sy'n briodol i blentyn fod yn rhan ohono wrth iddynt ystyried rhoi trwydded. Fodd bynnag, rhaid cydnabod rhyddid mynegiant a rhyddid artistig yn briodol. Mae darlledwyr wedi mynegi pryder fod barn yr awdurdod lleol ynglŷn â pha ddeunydd sy'n addas yn cyfyngu'n ddiangen ar eu hannibyniaeth olygyddol. Yr her yw sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng annibyniaeth artistig ac addasrwydd y perfformiad ar gyfer y plentyn dan sylw.

7.8 Y mater allweddol yw nad cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cynnig barn foesol neu artistig, ac nid felly ddylai hi fod. Rôl awdurdodau wrth drwyddedu yw sicrhau diogelwch a lles plant. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn un y gellir ei gynnwys yn hawdd mewn deddfwriaeth; rhaid defnyddio synnwyr cyffredin. Ymddengys yn rhesymol y dylai awdurdodau lleol dderbyn braslun neu ddisgrifiad cryno o'r cynhyrchiad, y rôl neu'r gweithgaredd. Dylai'r cais am drwydded gynnwys yr asesiad risg a gynhaliodd y cynhyrchydd, yn cynnwys ei asesiad o addasrwydd y plentyn i gymryd rhan yn y gweithgaredd, a'r risgiau posibl i'r plentyn ar ôl iddo gymryd rhan (nid yn ystod y gweithgaredd yn unig)

7.9 Os oes gan awdurdod lleol bryderon ynghylch y gweithgaredd arfaethedig, neu ynglŷn â pha mor wydn yw'r plentyn i fod yn rhan ohono, dylent ystyried barn y rhiant. Rhieni a gwarcheidwaid sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau y bydd eu plentyn yn rhan ohonynt yn addas. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau nad oes risg i les emosiynol a moesol eu plentyn. Os ydynt wedi cael gwybod beth yn union fydd y gweithgaredd ac yn cefnogi cyfranogiad eu plentyn, dylid rhagdybied o blaid trwyddedu. Ond mater i'r awdurdod lleol yn y pen draw fydd penderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio, yn seiliedig ar y cais a'u gwybodaeth leol, a'u cyfrifoldeb dros ddiogelwch y plentyn.

### Caniatâd rhiant

7.10 Rhaid cael caniatâd rhiant neu warcheidwad cyn y gellir rhoi trwydded.

### Cydsyniad plentyn

7.11 Rhaid i'r plentyn gydsynio bob amser i gyfranogi mewn unrhyw weithgaredd perfformio. Mae canllawiau Ofcom yn argymell gofyn yn gyson i sicrhau bod y plentyn yn parhau'n awyddus i gymryd rhan; awgrymwn fod hyn yn arfer da y gallai cynhyrchwyr ei fabwysiadu ar gyfer pob math o weithgaredd perfformio.

### Tystysgrifau meddygol

7.12 Ar hyn o bryd, yn y rhan fwyaf o achosion[15] bydd gofyn cael archwiliad meddygol cyn y gellir rhoi trwydded. Dywedodd rhai rhieni wrthym y gallai gostio tua £150 i gael tystysgrif gan feddyg teulu'r plentyn. Dywedodd pob un o'r swyddogion

[15] Rheoliad 8 o Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968

trwyddedu y siaradon ni â nhw fod y gofyniad am dystysgrif yn ddiangen yn eu barn nhw, a gallai'r gost beri anfantais i blant o deuluoedd ar incwm is. Credwn y dylem ofyn i rieni lenwi datganiad o ffitrwydd yn rhan o'r cais am drwydded. Dylai'r datganiad roi sylw i amryw o ffactorau, er enghraifft os yw'r perfformiad dramor, dylai ofyn a yw'r plentyn wedi cael y brechiadau priodol. Bwriadwn gynnwys y datganiad hwn yn lle'r gofyniad am archwiliad meddygol, ond byddai awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i ofyn am archwiliad meddygol pe baen nhw'n ystyried bod angen hynny.

**Dyddiadau perfformio**

7.13 Ar hyn o bryd, rhaid i drwyddedau ddatgan ar ba ddyddiadau fydd perfformio'n digwydd. Credwn fod angen mwy o hyblygrwydd, gan nad yw bob amser yn bosibl i ddarlledwyr roi amserlen bendant, yn enwedig wrth ffilmio. Rydym eisiau newid y gofyniad hwn er mwyn i'r trwyddedau nodi nifer y dyddiau yn hytrach na dyddiadau penodol ar gyfer perfformiadau wedi'u trwyddedu.

**Natur perfformiadau mewn diwrnod**

7.14 Mae'r rheoliadau'n cyfyngu ar hyn o bryd ar y nifer o berfformiadau dyddiol y caiff plentyn gymryd rhan ynddynt. Ni chredwn fod unrhyw reswm pam na ddylai plentyn gymryd rhan mewn gwaith modelu, dyweder, yn y bore a pherfformiad bale yn y prynhawn, cyn belled â'i fod heb fynd dros y terfyn oriau gweithio yn yr amser hwnnw.

**Alinio a symleiddio rheolau oriau**

7.15 Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau ar yr oriau y caiff plentyn berfformio a bod yn bresennol wedi'u rhannu, yn dibynnu a yw'r perfformiad i'w ddarlledu neu ei recordio, i'w gynnal mewn theatr, neu yn rhywle arall. Ni chredwn fod unrhyw resymau da dros gael rheolau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o berfformiad, felly rydym yn argymell rheolau symlach a fydd yr un fath ar gyfer pob gweithgaredd. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith modelu am dâl lle bydd angen trwydded. Rydym yn argymell y dylai'r terfynau ar oriau perfformio'r plentyn a'r gofynion am seibiannau ac amser rhydd fod yn gymwys hefyd ar gyfer perfformiadau lle nad oes raid cael trwydded.

7.16 Rydym eisiau parhau i amrywio uchafswm yr oriau y caiff plentyn gymryd rhan mewn diwrnod, a nifer y seibiannau sydd eu hangen ar blant yn ôl eu hoedran. Ond o fewn y cyfyngiad cyffredinol hwn, ni welwn unrhyw reswm da dros wahaniaethu rhwng mathau o weithgaredd a pha mor gynnar a hwyr y dylai plant dros bump oed gael cymryd rhan ynddynt. Yn y tabl isod, awgrymwn reolau wedi'u symleiddio ar gyfer oriau presenoldeb ac oriau perfformio, a'r seibiannau sy'n rhaid i blentyn eu cael, yn seiliedig ar eu hoedran.

| Oedran y plentyn | Uchafswm amser mynychu ac amser perfformio | Oriau presenoldeb cynharaf a hwyraf | Seibiannau |
|---|---|---|---|
| 11-16 | Presenoldeb – 9.5 awr | 7am i 11pm | Pan yn bresennol…<br>2 seibiant mewn 4 awr<br>(1 i gael bwyd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Perfformio– 5 awr | | 3 seibiant mewn 8 awr (2 i gael bwyd) |
| 5-10 | Presenoldeb – 8 awr<br>Perfformio– 3 awr | 7am i 11pm | Wrth berfformio...<br>Un seibiant bob awr<br>Pan yn bresennol...<br>2 seibiant mewn 4 awr (1 i gael bwyd)<br>3 seibiant mewn 8 awr (2 i gael bwyd) |
| 0-4 | Presenoldeb – 5 awr<br>Perfformio – 2 awr | 8am i 10pm | Wrth berfformio...<br>Un seibiant bob 45 munud<br>Un seibiant bob 30 munud |
| Pob oedran | Ni ddylai plentyn fod yn bresennol eto o fewn llai na 12 awr i ddiwedd y perfformiad neu'r ymarfer diwethaf;<br>Ni ddylai plentyn berfformio am fwy na 5 diwrnod yn ddilynol a dylai gael seibiant o 2 ddiwrnod ym mhob cyfnod o 7 diwrnod;<br>Os yw plentyn yn perfformio ar uchafswm y nifer o ddyddiau am wyth wythnos, yna rhaid i'r plentyn gael pythefnos yn rhydd heb unrhyw fath o waith. | | |

7.17 Fel ar hyn o bryd, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cael caniatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad wedi'r awr hwyraf a ganiateir. Ond bwriadwn gynyddu'r hyblygrwydd hwn a diddymu'r amod fod yn rhaid i berfformiadau o'r fath ddigwydd yn yr awyr agored. Er mwyn arfer yr hyblygrwydd hwn a chymeradwyo perfformiadau wedi'r awr hwyraf a ganiateir, byddai awdurdod lleol eisiau bod yn siŵr fod rheswm da pam y dylai'r perfformiad ddigwydd yn y nos, a sicrwydd na fydd y plentyn yn gorweithio, ac na fydd ei addysg yn dioddef o ganlyniad.

7.18 Mewn unrhyw amgylchiadau, er mwyn atal plentyn rhag gorflino, rydym yn argymell yr isafswm bylchau rhwng dyddiau ac wythnosau perfformio a nodir yn y tabl uchod. Mae ymarferion yn ystod y cyfnod rhwng y perfformiad cyntaf a'r perfformiad olaf yn gynwysedig yn y gofynion ar gyfer oriau perfformio, presenoldeb a'r angen am seibiannau.

**Cwestiynau ymgynghori**

A yw'r oriau a argymhellwyd gennym yn ymddangos yn rhesymol? Os oes gennych bryderon, beth yn eich barn chi ddylid ei newid?A ydych chi'n credu y dylai trwyddedau barhau i bennu dyddiadau perfformio, neu a fyddai'n addas cael rhywfaint o hyblygrwydd o ran dyddiadau?

A ddylai'r cynhyrchydd orfod cynnal asesiad risg fel rhan o'r cais? Os felly, pa ffactorau ddylid eu cynnwys?

# 8. Cynyddu cyfleoedd i blant

8.1 Gall cymryd rhan mewn perfformiad fod o fudd i blant mewn llawer o ffyrdd. Gallant ddysgu o’r profiad a datblygu sgiliau a hyder. Efallai y bydd rhai’n darganfod fod ganddynt ddawn eithriadol, neu’n ymddiddori a dangos gallu o ran rolau cefnogol neu dechnegol. Bydd llawer yn ei weld fel dim mwy nag antur hwyliog a chyffrous. Ni ddylai plant golli cyfle i gael y profiadau hyn oherwydd biwrocratiaeth. Mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth, ond nid yw gwaith papur yn eu diogelu rhag niwed; oedolion cyfrifol sy’n gwneud hynny.

### Ymestyn cymeradwyaeth Corff o Bobl ar gyfer gweithgareddau am dâl

8.2 Ceir eithriad ar hyn o bryd rhag y gofyniad i gael trwyddedau unigol ar gyfer digwyddiadau penodol lle na chaiff plant eu talu. Gelwir hyn yn gymeradwyaeth Corff o Bobl. Ni chredwn y dylai fod angen trwyddedau unigol ym mhob sefyllfa. Rydym yn argymell ymestyn y gymeradwyaeth Corff o Bobl bresennol i gynnwys cymeradwyaeth ar gyfer digwyddiadau penodol lle bydd plant tair ar ddeg oed a hŷn yn cael eu talu.

8.3 Byddwn yn parhau â’r broses drwyddedu unigol ar gyfer plant o dan dair ar ddeg oed sy’n cael eu talu am berfformio. Credwn fod gwahanol lefelau o risg pan fydd plant iau’n cymryd rhan, a dylai’r trefniadau trwyddedu adlewyrchu hynny.

8.4 Ni fwriadwn bennu’r broses o wneud penderfyniadau sy’n rhaid i awdurdod lleol ei dilyn wrth ystyried a ddylid rhoi Cymeradwyaeth Corff o Bobl. Y man cychwyn fyddai trafodaeth rhwng awdurdod lleol a’r cwmni cynhyrchu ynglŷn â’r ffordd orau o sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ond cymesur ar waith i sicrhau diogelwch a lles y plant sy’n cymryd rhan.

8.5 Dim ond ar gyfer un digwyddiad penodol y byddai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi; ni fyddai’n berthnasol i unrhyw weithgareddau eraill a drefnir gan sefydliad. Er enghraifft, os yw digwyddiad i’w gynnal yn flynyddol, bydd angen cymeradwyaeth bob blwyddyn. Rydym hefyd yn argymell na ddylai’r Ysgrifennydd Gwladol gael unrhyw ran yn y broses o roi cymeradwyaeth o’r fath.

### Cynllun cofrestru wedi’i symleiddio ar gyfer grwpiau amatur

8.6 Ceir gwahanol fathau o grwpiau amatur, o grwpiau cymunedol a grwpiau ieuenctid anffurfiol i rai sy’n berchen ar eu theatrau eu hunain, gyda’r potensial i greu amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynnwys plant mewn gweithgareddau perfformio. Bydd rhai grwpiau’n cynnwys teuluoedd; a bydd eraill ar gyfer pobl ifanc yn benodol.

8.7 Mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad sy’n cynnwys plant mewn perfformiadau i sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith, boed angen trwyddedau ai peidio. Ond mae’r rheidrwydd i gael trwyddedau unigol yn gosod baich sylweddol ar grwpiau amatur, lle bydd gwirfoddolwyr yn gorfod ysgwyddo cost a phwysau’r gwaith gweinyddol sy’n gysylltiedig â’r broses.

8.8 Rydym yn argymell ei gwneud yn haws i grwpiau amatur allu llwyfannu perfformiadau sy’n cynnwys plant drwy sefydlu cynllun cofrestru wedi’i symleiddio yn

lle'r systemau trwyddedu a chymeradwyo presennol. Byddai hyn yn cynnwys proses i'r awdurdod lleol asesu polisïau a threfniadau'r sefydliad a phe bai'n fodlon a nhw, gallai gymeradwyo neu gofrestru'r sefydliad am gyfnod o ddwy flynedd. Gallai sefydliadau wedi'u cofrestru yn y ffordd hon lwyfannu perfformiadau sy'n cynnwys plant heb fod angen gwneud ceisiadau am drwyddedau pellach, ond byddai gofyn iddynt gydymffurfio ag amodau eu cofrestriad cychwynnol.

8.9 Rydym yn argymell na ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael unrhyw ran yn y broses o gofrestru grwpiau amatur o dan y cynllun Cofrestru Perfformiadau Amatur arfaethedig.

8.10 Pan fydd cynhyrchwyr yn llwyfannu cynyrchiadau mewn nifer o leoliadau, dim ond gyda'u hawdurdod lleol 'cartref' ddylai fod angen iddynt gofrestru, ond dylid rhoi gwybod i'r holl awdurdodau lleol perthnasol lle byddant yn llwyfannu cynyrchiadau sy'n cynnwys plant, a gall yr awdurdodau hynny gysylltu â'r awdurdod cofrestru i drafod unrhyw bryderon. Dim ond yr awdurdod lleol 'cartref' fydd yn cael diddymu trwydded.

## Diddymu cyfyngiadau oedran

8.11 Mae Deddf 1963 yn datgan na ellir trwyddedu plant o dan 14 oed ar wahân i blant sy'n actio, yn dawnsio mewn bale, ac na all neb ond plentyn o'r oed hwnnw chwarae'r rhan, neu lle bo'r perfformiad yn sioe gerdd neu'n opera neu fale yn unig [16]. Credwn fod y cyfyngiadau hyn yn atal plant rhag manteisio ar gyfleoedd ac rydym yn argymell eu diddymu.

8.12 Yn lle hynny, disgwyliwn i gynhyrchwyr fod yn ymwybodol iawn o'r risgiau i les emosiynol a chorfforol plentyn, ac i ystyried ei oedran a pha mor agored i niwed yw plentyn wrth ystyried ei gynnwys mewn perfformiadau. Gall arbenigwyr plant wneud cyfraniad allweddol at y gwaith o gynghori cwmnïau cynhyrchu ynglŷn â chefnogi lles seicolegol plant sy'n perfformio, a dylid eu cyflogi os yw asesiad risg yn awgrymu y gallai hyn fod yn berthnasol. Wrth ystyried cais am drwydded, efallai y bydd awdurdod lleol eisiau bodloni ei hun fod gan y cwmni cynhyrchu gynlluniau addas ar waith i fynd i'r afael â risgiau o'r fath.

## Gwaith mewn criw

8.13 Mae gwaith mewn criw yn waith nad yw'n galw am blentyn i bortreadu rhan plentyn, er enghraifft, perfformio mewn corws. Nid oes cyfyngiad ar drwyddedu plentyn dros dair ar ddeg ar gyfer gwaith o'r fath os yw'n parhau i fyw gartref, neu lle mae'n byw fel arfer. Ond mae rhai cyfyngiadau pe bai gofyn iddo fyw yn rhywle heblaw lle mae'n arfer byw. Dim ond ar gyfer un digwyddiad preswyl ar y tro y gellir trwyddedu'r plentyn, ac ni roddir trwydded ar gyfer digwyddiad preswyl arall o fewn tri mis i'r perfformiad olaf o dan drwydded flaenorol i alluogi'r plentyn i weithio oddi cartref.[17]

[16] Adran 38 o Ddeddf 1963
[17] Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Plant(Perfformiadau) 1999 (fel y'u diwygiwyd)

8.14 Rydym yn argymell diddymu pob cyfyngiad o'r fath yn y ddeddfwriaeth, gan mai mater i'r plentyn a'i riant i'w gytuno yw hyn, ac i'r awdurdod trwyddedu farnu yn ei gylch wrth benderfynu ar yr amodau trwyddedu fydd eu hangen i gefnogi lles gorau'r plentyn. Bydd yr awdurdod eisiau sicrwydd fod trefniadau addas ar waith i sicrhau ei ddiogelwch, ei les a'i addysg addas. O gael y sicrwydd hwn, byddem yn disgwyl i benderfyniad awdurdod lleol gyd-fynd â dymuniadau'r plentyn a'i rieni.

**Cyfle cyfartal**

8.15 Rydym eisiau sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu perfformiadau plant yn cefnogi cyfle cyfartal. Rydym yn ceisio barn pobl drwy'r ymgynghoriad hwn ar y tebygolrwydd y bydd y cynigion a nodir yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar gyfleoedd perfformio unrhyw grwpiau arbennig o blant.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol gael rhoi cymeradwyaeth 'Corff o Bobl' neu gymeradwyaeth unigol ar gyfer digwyddiadau mawr lle bydd plant tair ar ddeg a hŷn yn cael eu talu i gymryd rhan?

A ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad y dylid cofrestru sefydliadau amatur yn hytrach na thrwyddedu plant unigol?

A ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad y dylid dileu'r cyfyngiadau ar drwyddedu plant o dan bedair ar ddeg oed?
A ydych chi'n cytuno â'r argymhellion i ddileu'r cyfyngiadau ar waith mewn criw?

Nodwch os ydych chi'n credu y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y grwpiau canlynol o bobl:

- bechgyn
- merched
- plant ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu
- plant o wahanol gymunedau economaidd, cymdeithasol, ethnig neu grefyddol

Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth y dylem ei wneud i wella cyfle cyfartal ar gyfer plant sy'n perfformio?

# 9. Hebryngwyr

## Rôl a diben

9.1 Mae gan hebryngwyr (y cyfeirir atynt fel 'matrons' yn y ddeddfwriaeth) sywddogaeth bwysig o ran gofalu am blant sy'n perfformio. Mae gofyn i hebryngwr ofalu am y plentyn drwy'r amser yn ystod cynhyrchiad, i wneud yn siŵr ei fod yn iach ac yn gyffyrddus, yn cael ei drin yn garedig, ac i ddiogelu ei les moesol.[18] . Dywedodd rhai a arferai berfformio pan oeddent yn blant ei bod hi'n help cael oedolyn y gellir ymddiried ynddo nad yw'n rhan o'r tîm cynhyrchu, i allu troi ato ac ymddiried ynddo. Mae'r hebryngwr yn eiriolwr ar ran y plentyn, a dylai allu herio cynhyrchydd neu gyfarwyddwr lle bo angen. Mae angen i hebryngwr sicrhau na fydd neb yn gofyn i blentyn wneud rhywbeth sydd y tu hwnt iddo'n gorfforol neu'n emosiynol, gwneud yn siŵr fod y plentyn yn cael digon o orffwys, a diogelu ei les cyffredinol drwy gydol y gweithgaredd perfformio. Nid yw'r rôl hon wedi newid ers y 1960au, ond credwn ei bod yr un mor bwysig heddiw ag yr oedd bryd hynny. Efallai y byddwn eisiau diweddaru'r disgrifiad, ond nid ydym eisiau newid y cylch gwaith sylfaenol.

## Hebryngwyr mewn cynyrchiadau amatur

9.2 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gwmni cynhyrchu benodi hebryngwr lle bynnag y bydd plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cymryd rhan mewn gweithgaredd perfformio sy'n galw am drwydded. Rhaid i hebryngwyr gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod trwyddedu. Mae'r broses gymeradwyo'n amrywio o un awdurdod lleol i'r llall; mae rhai'n mynnu bod yr hebryngwr yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant, a bydd eraill yn cymeradwyo hebryngwr ar sail cais ysgrifenedig a geirda.

9.3 Rydym yn argymell y dylai cynyrchiadau sy'n cynnwys plant gael hebryngwyr ond ni ddylai fod angen i'r awdurdod lleol gymeradwyo hebryngwyr yn y sector amatur. Credwn y dylai cynhyrchwyr yn y sector amatur ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddewis hebryngwyr a bodloni eu hunain eu bod yn addas ar gyfer y rôl, gyda'r awdurdodau lleol yn archwilio yn ôl yr angen.

9.4 Er na fyddai awdurdodau lleol yn cymeradwyo neu'n cofrestru hebryngwyr ar gyfer y sector amatur wedyn, byddem yn eu hannog i rannu eu profiad o arfer da, yn enwedig ym maes hyfforddi hebryngwyr. Canfu adolygiad Sarah Thane fod y sector amatur wedi dangos diddordeb mewn hyrwyddo hyfforddiant i hebryngwyr. Ni fwriadwn gyhoeddi canllawiau canolog ar y mater, ond byddem yn annog y sector i ddatblygu a rhannu arfer da, gan gynnwys defnydd ehangach o becynnau hyfforddi ar-lein.

## Hebryngwyr yn y sector proffesiynol

9.5 Rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol barhau i gofrestru a chymeradwyo hebryngwyr sy'n gweithio yn y sector proffesiynol, ond gan gadw'r eithriad lle bydd rhieni'n hebryngwyr i'w plant eu hunain yn unig. Er bod diben y rôl yr

[18] Rheoliad 12 o Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (fel y'u diwygiwyd)

un fath, efallai y bydd angen i hebryngwyr yn y sector proffesiynol herio mwy ar gynhyrchwyr a chyfarwyddwyr, a bod angen sgiliau i fod yn eiriolwyr cryf dros fuddiannau'r plentyn, a dylai hynny gael blaenoriaeth dros unrhyw ystyriaethau golygyddol neu fasnachol. Dylai'r gofyniad am gofrestriad a chymeradwyaeth yr awdurdod lleol fod yn ffordd o sicrhau bod gan hebryngwr sgiliau angenrheidiol i allu gwneud hyn, a gallai helpu i osgoi'r perygl o wrthdaro rhwng buddiannau yn yr agwedd hon o'r rôl. Rydym hefyd yn argymell fod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu anfon copi o'r drwydded i hebryngwr a enwir, er mwyn iddo fod yn ymwybodol o amodau'r drwydded honno.

**Nifer y plant i bob hebryngwr**

9.6 Mae'r rheoliadau'n dweud na chaiff hebryngwr oruchwylio mwy na 12 o blant. Y consensws o'r diwydiant adloniant yn ystod adolygiad Sarah Thane oedd bod hyn yn ormod o blant i un hebryngwr ofalu amdanynt. Rydym yn ceisio barn pobl i weld a ddylid lleihau'r gymhareb hon i uchafswm o 10 o blant i bob hebryngwr. Deallwn mai anaml iawn y bydd gofyn i hebryngwr ofalu am yr uchafswm o blant, ac felly ni fyddem yn disgwyl i'r newid hwn arwain at gostau arwyddocaol i'r diwydiant.

**Hebryngwyr a thiwtora**

9.7 Os yw'r hebryngwr hefyd yn diwtor i'r plentyn, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na ddylai fod yn gyfrifol am fwy na dau o blant eraill ar yr un pryd. Rydym yn argymell diddymu'r cyfyngiad hwn. Nid am ein bod yn credu y dylai'r gymhareb fod yn uwch o anghenraid y gwnawn hynny. Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd myfyriwr yn paratoi i sefyll arholiadau lefel A, neu fod ganddo anghenion addysg arbennig, gallai cymhareb o un i un fod yn fwy addas. Mae'n bwysig nad yw addysg plentyn yn dioddef o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd perfformio. Mae sicrhau hyn yn gyfrifoldeb i rieni a chwmnïau cynhyrchu, gyda chefnogaeth ysgolion ac awdurdodau lleol fel y bo'n briodol. Anghenion y plentyn unigol ddylai lywio penderfyniadau yn hytrach na chymhareb staffio wedi'i phennu gan ddeddfwriaeth.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n cytuno y dylai fod angen hebryngwr ar gyfer plant sy'n cymryd rhan ym mhob math o sefyllfa berfformio? Os ydych yn anghytuno, eglurwch pam.

Yn eich barn chi, a yw'r argymhelliad y dylai'r sector amatur gymeradwyo eu hebryngwyr eu hunain yn drefniant digon diogel i blant?

Yn eich barn chi, a ddylid gostwng yr uchafswm o blant y caiff hebryngwr ofalu amdanynt ar y tro?

# 10. Addysg

10.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na ddylai awdurdod lleol drwyddedu plentyn i gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd oni bai ei fod wedi'i fodloni na fydd addysg y plentyn yn dioddef.[19]

10.2 Dylai'r egwyddor hon barhau i fod yn sail i benderfyniadau trwyddedu. Bydd angen i swyddogion trwyddedu roi ystyriaeth eang a doeth i'r blaenoriaethau addysgol ar gyfer y plentyn. Gall cymryd rhan ynddo'i hun gynnig addysg werthfawr a datblygu sgiliau. Ni ddylid gwrthod cyfle unwaith mewn oes i blentyn dawnus oherwydd bod risg nad yw'n ddifrifol nac yn sylweddol o niwed i'w addysg a'i ragolygon ar gyfer y dyfodol. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar ragfarn o blaid caniatáu i blant fanteisio ar gyfleoedd.

### Absenoldeb o'r ysgol

10.3 Dylai'r awdurdod lleol gysylltu ag ysgol y plentyn os yw cais yn nodi fod y perfformiad i ddigwydd yn ystod y tymor ysgol neu'n golygu fod y plentyn yn mynd i fod yn absennol. Os yw plentyn yn mynd i golli mwy na diwrnod o ysgol er mwyn perfformio, yna rhaid darparu gwersi eraill addas ar ei gyfer.

10.4 Yr awdurdod lleol yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw fydd yn penderfynu a ddylid trwyddedu. Dylent ymgynghori â'r ysgol neu'r Academi a chyda'r rhieni. Mae'n rhaid cael caniatâd rhieni.

### Tiwtora plant sy'n perfformio

10.5 Os argymhellir y dylid trefnu gwersi preifat, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi gofynion manwl ynglŷn ag adegau o'r dydd a dyddiau o'r wythnos ar eu cyfer. Fel y nododd adolygiad polisi 2010, mae rhieni, swyddogion trwyddedu ac eraill wedi mynegi pryder ynglŷn â'r diffyg hyblygrwydd o ran amseru ac ansawdd y profiad dysgu pan fydd plant yn cael eu tiwtora y tu allan i'r ysgol.

10.6 Cytunwn y byddai mwy o hyblygrwydd yn help wrth drefnu addysg plant, ac rydym yn argymell bod y fframwaith newydd yn caniatáu rhagor o hyblygrwydd o ran amserau dysgu, tra'n cadw'r gofyniad am gyfanswm o 15 awr o wersi bob wythnos. Rydym yn argymell amser dechrau a gorffen o 8.30am a 4.30pm, er enghraifft, a hyblygrwydd i addysgu plentyn am hyd at 5 diwrnod, a gallai'r dyddiau hyn gynnwys dydd Sadwrn a dydd Sul.

10.7 Nid ydym yn argymell deddfu ynglŷn â pha gymwysterau fydd eu hangen ar diwtoriaid, nac ar yr angen i ddilyn y cwricwlwm. Rydym yn argymell, fel mater o arfer da, y dylai tiwtoriaid fod wedi cymhwyso'n briodol ar gyfer dysgu, ac y dylid cadw cysylltiad rhwng y tiwtor a'r ysgol i hybu perthnasedd ac ansawdd y gwersi sydd i'w rhoi. Bydd yr awdurdod lleol eisiau sicrwydd ynglŷn â'r pwyntiau hyn fel rhan o'r cais am drwydded. Ond mater i rieni, athrawon a chynhyrchwyr yw'r trefniadau manwl, nid materion i'r wladwriaeth eu pennu.

---

[19] Adran 37(4) o Ddeddf 1963

10.8 Dylai cwmnïau cynhyrchu a thiwtoriaid ystyried, a cheisio manteisio ar gyfleoedd i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad er mwyn ategu ac ychwanegu at ei brofiad addysgol. Gallai hwn fod yn faes i rwydweithiau awdurdodau lleol, yn gweithio o fewn y diwydiant, eu datblygu a'u cynnwys mewn unrhyw ganllawiau arfer da a gynhyrchant.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad i ganiatáu rhagor o hyblygrwydd o ran yr oriau dysgu?

Yn eich barn chi, a ddylid parhau i wneud gwersi'n ofynnol (fel ar hyn o bryd) ar yr ail ddiwrnod o absenoldeb o'r ysgol?

# 11. Gweithio dramor

11.1 Mae cynhyrchwyr sy'n gwneud cais am drwyddedau i fynd â phlant dramor yn dweud fod y broses yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd; caiff hyn ei ategu gan y nifer fach o lysoedd ynadon sy'n ymdrin â cheisiadau. Mae arferion cyfredol yn y diwydiant a'r llysoedd yn golygu fod bron y cyfan o'r ceisiadau drwy'r wlad yn cael eu trin gan un llys yn bennaf.

11.2 Mae'r broses y dylai ynadon ei defnyddio i ystyried cais a'r pwerau sydd ganddynt i'w gweld yn neddfwriaeth 1963. Yr adeg honno, roedd hi'n annhebygol y byddai llawer o blant yn mynd dramor i berfformio ac mae'r broses yn adlewyrchu hynny, ac yn cynnwys cryn dipyn o ofal ac archwilio. Yn ôl amcangyfrifon diweddar, rhoddir 300-500 o drwyddedau bob blwyddyn bellach i blant gael perfformio dramor. Ceir llawer mwy o gyfleoedd nawr i blant weithio dramor a chyfleoedd i deithio fel mater o drefn, er enghraifft drwy'r ysgolion. Mae'r gofynion i ymgeiswyr ac ynadon i'w gweld yn ormodol yn y cyd-destun hwn.

### Cyfrifoldeb lleol

11.3 Rydym yn argymell mai'r awdurdodau lleol, yn hytrach nag ynadon, ddylai drwyddedu er mwyn i blant gael perfformio dramor. Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am agweddau eraill ar drwyddedu perfformiadau plant. Mae hyn yn briodol am eu bod yn gallu gwneud ymholiadau uniongyrchol a lleol, er enghraifft i ystyried barn ysgol y plentyn, neu drwyddedau perfformio eraill a roddwyd mewn perthynas â'r plentyn. Ar hyn o bryd, nid yw ynadon yn gorfod ystyried barn yr awdurdod lleol am y cais o gwbl na hyd yn oed ei hysbysu ynglŷn â thrwydded a roddir, neu gais a wrthodir.

11.4 Yn ogystal â diddymu swyddogaeth ynadon o ran trwyddedu, rydym yn argymell diddymu'r gofyniad fod yn rhaid cyflwyno ceisiadau i brif swyddog yr heddlu yn gyntaf, a diddymu'r gofyniad i hysbysu conswl.

### Cwestiynau ymgynghori

A ydych chi'n cytuno mai awdurdodau lleol yn hytrach nag ynadon ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau trwyddedu i blant gael perfformio dramor?

A ydych chi'n credu y dylai unrhyw asiantaethau eraill fod yn rhan o'r penderfyniad i drwyddedu er mwyn i blant gael perfformio dramor?

Nid oes disgwyl i berfformiadau sy'n digwydd dramor gael eu harchwilio, gan na fyddai hynny'n ymarferol. A oes unrhyw fesurau eraill, yn eich barn chi, a fyddai'n gwella trefniadau diogelwch ar gyfer plant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau dramor, gan gynnwys gwaith modelu proffesiynol?

# 12. Lleihau biwrocratiaeth

12.1 Barn y llywodraeth yw y dylai awdurdodau lleol barhau i ddarparu trwyddedau. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau trefniadau diogelwch, amddiffyn a lles plant yn eu hardal. Ond rhaid gwneud y system drwyddedu a chymeradwyo yn fwy effeithiol os yw'n mynd i sicrhau na chaiff plant eu rhoi dan anfantais rhag manteisio ar gyfleoedd, ac i alluogi swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol i ganolbwyntio eu sylw felly ar sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n briodol wrth iddynt wneud hynny.

**Cysondeb wrth wneud penderfyniadau trwyddedu**

12.2 Gall awdurdodau lleol wrthod rhoi trwydded os nad yw'r cwmni cynhyrchu'n rhoi gwybod am yr angen am drwydded o leiaf 21 diwrnod cyn bod ei hangen. Argymhellodd adolygiad Sarah Thane y dylid symleiddio'r broses ymgeisio, gan roi nod o 10 diwrnod gwaith ar gyfer prosesu ceisiadau trwyddedu. Gallai fod yn haws cyflawni hyn drwy ddefnydd mwy cyson o gronfeydd data electronig, ffurflenni cais safonol ar-lein, canllawiau a chwestiynau a ofynnir yn aml wedi'u datblygu gan awdurdodau lleol a'u defnyddio gan bob awdurdod lleol ac e-bostio yn hytrach na defnyddio post papur. Mewn rhai ardaloedd, gallai fod angen gwneud trefniadau i sicrhau bod y gwaith yn digwydd drwy gydol oriau swyddfa arferol a gwyliau, gan nad yw gweithgareddau perfformio na cheisiadau trwyddedu wedi'u cyfyngu i'r tymor ysgol.

12.3 Bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng prosesu ceisiadau'n gyflymach, a'r angen i awdurdod lleol gael hyblygrwydd i ymchwilio ymhellach os nad oes digon o wybodaeth wedi'i rhoi, neu fod angen egluro'r risgiau a allai fod yn gysylltiedig â'r gweithgaredd, neu sut y mae'r cwmni'n bwriadu rheoli'r risgiau. Rydym yn bwriadu cadw'r gofyniad y dylai cwmni roi rhybudd o'r hyn y maent ei angen, ond yn argymell ei ostwng o 21 i 10 diwrnod gwaith o rybudd o flaen llaw. Ar gyfer ceisiadau syml, byddai disgwyl i awdurdod lleol ddod i benderfyniad o fewn yr amserlen honno. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd awdurdod lleol wedi derbyn yr holl wybodaeth yr ystyrir yn angenrheidiol ganddo cyn rhoi cymeradwyaeth, neu efallai y bydd wedi nodi risgiau sy'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Rhaid i'r baich fod ar yr ymgeisydd i ddarparu digon o wybodaeth, ac asesiad risg, er mwyn i'r swyddog trwyddedu allu gwneud penderfyniad ar sail yr holl wybodaeth.

12.4 Credwn y byddai diwygio'r broses drwyddedu yn y ffordd hon yn fanteisiol ar gyfer ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gwaith modelu am dâl hefyd, lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen prosesu trwyddedau yn gyflymach.

12.5 Disgwyliwn i bob awdurdod lleol gyhoeddi manylion (ar eu gwefannau) ynglŷn â sut i ymgeisio am drwydded berfformio ar gyfer plentyn a manylion cyswllt ar gyfer trafod eu cais. Dylai hefyd ddweud yn eglur beth yw'r drefn gwyno ar gyfer yr awdurdod lleol.

**Man perfformio a man ymarfer**

12.6 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi na ddylai plentyn gymryd rhan mewn perfformiad, ymarfer neu weithgaredd sy'n galw am drwydded oni fo'r man lle bydd yn gwneud hynny wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Mae'n nodi'r agweddau

sy'n gysylltiedig â lleoliad y bydd awdurdod lleol eisiau bod yn fodlon yn eu cylch, er enghraifft toiledau a chysgod rhag tywydd gwael. Gofynion sylfaenol yw'r rhain y byddem yn disgwyl i unrhyw gynhyrchydd neu drefnydd eu darparu, boed y gweithgaredd yn galw am drwydded ai peidio. Efallai y bydd awdurdod lleol eisiau bod yn fodlon fod y lleoliad yn addas. Ond ni ddylai fod angen deddfu ar gyfer anghenion sylfaenol a synnwyr cyffredin, ac rydym yn argymell tynnu'r lefel hon o ofynion o'r rheoliadau.

### Cymeradwyo llety

12.7 Rydym yn argymell diddymu'r gofyniad presennol fod yn rhaid i awdurdod lleol gymeradwyo llety os yw plentyn yn aros oddi cartref dros nos. Dylai'r awdurdod lleol fod yn fodlon fod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y plentyn sydd oddi cartref, a dylai sicrwydd ynglŷn â hynny fod yn rhan o'r broses ar gyfer cymeradwyo trwyddedau. Er mwyn sicrhau cymesuredd, fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i awdurdod lleol archwilio neu gymeradwyo pob trefniant.

### Enillion plant

12.8 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw plant sy'n perfformio'n ennill arian mawr, ond mewn rhai achosion gallai eu henillion fod yn sylweddol. O dan y rheoliadau presennol, yr awdurdod lleol sy'n pennu sut y dylid cynilo cyfran o enillion y plentyn. Rydym yn argymell diddymu'r gofyniad hwn am mai mater i'r plentyn a'i rieni yw penderfynu hynny ac ni ddylai'r wladwriaeth ymyrryd yn ddiangen mewn materion teuluol.

### Symleiddio cadw cofnodion

12.9 Mae'r ddeddfwriaeth[20] yn nodi pa gofnodion sy'n rhaid i'r person sy'n dal y drwydded eu cadw. Nid yw'r rhan fwyaf o'r manylion hyn i'w gweld yn angenrheidiol. Ar hyn o bryd, er enghraifft, mae gofyn cofnodi amser cyrraedd, gadael, gorffwys, prydau bwyd, a gwersi yn ddyddiol. Bydd y drwydded ac unrhyw amodau penodol a gytunwyd gan yr awdurdod lleol yn nodi'r gofynion sylfaenol, a bydd yr hebryngwr yn cadw copi ohoni. Rydym yn argymell felly y dylid diddymu'r gofynion manwl hyn o'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r gofyniad i gofnodi manylion unrhyw salwch, anaf neu ddigwyddiad sy'n peri pryder mewn perthynas â'r plentyn a allai godi yn y man perfformio.

### Pwerau mynediad

12.10 Mae darpariaethau yn Neddf 1933 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig fynd i mewn i unrhyw fan lle credir bod plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad neu'n hyfforddi ar ei gyfer. Mae'r Llywodraeth yn ceisio lleihau a rhesymoli'r nifer o bwerau mynediad ac felly mae angen i ni ystyried a oes eu hangen yng nghyd-destun perfformiadau plant. Gallem ddiddymu'r pwerau mynediad yn Neddf 1933, a chynnwys amod yn lle hynny yn y drwydded, neu Gymeradwyaeth Corff o Bobl neu'r Cofrestriad Perfformiad Amatur, sy'n nodi hawl swyddog trwyddedu'r awdurdod lleol i

[20] Rheoliad 5 ac Atodlen 3 Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (O.S.1968/1728) a wnaed o dan adran 39(5) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963.

fynd ar safle os oes ganddo reswm i fod yn bryderus ynglŷn â diogelwch neu les plentyn. Rydym yn chwilio am dystiolaeth drwy'r ymgynghoriad hwn i weld a fyddai amod o'r fath yn drefn orfodi effeithiol yn lle'r drefn bresennol.

12.11 Mae cyfraith pwerau mynediad yn berthnasol i faes cyflogi plant hefyd. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â chyfraith cyflogi plant yn nes ymlaen eleni ac yn ystyried eich barn ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad perfformio a'r ymgynghoriad cyflogi.

**Cwestiynau ymgynghori**

A ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd o angen am drwydded o 21 diwrnod i ddeg?

Yn eich barn chi, a oes ffyrdd eraill o gyflymu'r broses?

A ydych chi'n cytuno gyda'r argymhellion i ddiddymu rôl a phwerau'r awdurdod lleol o ran:

i) cymeradwyo man perfformio;

ii) cymeradwyo llety;

iii) pennu sut y dylid cynilo enillion plentyn?

A ydych chi'n cytuno y dylem symleiddio'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion?

Yn eich barn chi, a ddylem gynnwys amod yn y drwydded neu'r gymeradwyaeth yn lle'r pwerau mynediad? (ystyriwch yr effaith debygol pe na bai'r pŵer ar gael, a'r effaith ar allu awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer cadw plant yn ddiogel).

Os oes gennych brofiad o'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio, a oedd eu defnydd yn addas neu'n angenrheidiol yn eich barn chi?

# 13. Cosbau cymesur

13.1 Rhieni a'r sawl sy'n trefnu i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer sy'n gyfrifol am gael trwydded gan yr awdurdod lleol yn yr ardal lle mae'r plentyn yn byw.

13.2 Yr Adran Addysg sy'n gyfrifol am y polisi a'r ddeddfwriaeth, ond nid oes ganddynt rôl yn y gwaith o archwilio neu weithredu camau gorfodi yn lleol. Yr awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod cwmnïau ac asiantiaid sy'n gweithredu yn eu hardal yn ymwybodol o'r gofynion ar gyfer perfformiadau plant, ac yn cydymffurfio â'r gofynion hynny. Os ystyriant ei bod hi'n angenrheidiol neu'n addas i wneud hynny, gall yr awdurdod lleol (neu'r heddlu) gychwyn achos troseddol yn erbyn unigolyn am fethu cydymffurfio â'r darpariaethau trwyddedu.

### Archwilio a gorfodi

13.3 Ar y cyfan, mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch yn ddadreoleiddiol. Bwriadwn ddiddymu deddfwriaeth a biwrocratiaeth ddiangen am nad yw'n cyflawni unrhyw bwrpas defnyddiol, neu am y gallai fod ffordd well o sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu plant rhag niwed. Bydd y fframwaith a argymhellwn yn symlach, ac yn haws ei ddeall a chydymffurfio ag ef.

13.4 Ein nod yw cael gwared ar waith papur gormodol a sicrhau hyblygrwydd yn lle hynny i swyddogion trwyddedu awdurdodau lleol allu canolbwyntio ar archwilio a gweithredu camau gorfodi. Bydd hyn yn eu galluogi i dargedu archwiliadau'n well, yn seiliedig ar wybodaeth leol ac asesiadau risg. Nid oes angen i gamau gorfodi ddibynnu ar archwiliadau'n unig; gallai swyddogion trwyddedu ystyried defnyddio holiaduron adborth gan berfformwyr, hebryngwyr a rhieni.

### Dirwyon am fethu cydymffurfio

13.5 Os nad yw corff wedi cydymffurfio â'r gofynion i wneud cais am drwydded neu gymeradwyaeth lle mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo wneud hynny, neu os nad yw wedi cydymffurfio â'r amodau yn y drwydded, bydd yn cyflawni trosedd a chaiff ei gosbi os caiff ei ddyfarnu'n euog. Mae'r cosbau wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth[21] ac yn amrywio o ddirwyon bach i hyd at ddwy flynedd o garchar.

13.6 Rydym yn ystyried a ddylid newid y cosbau am fethu cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu. Mae dedfrydau byr o garchar yn tarfu ar fywydau'r rhai sy'n cael eu carcharu, eu teuluoedd a'u rhagolygon gwaith. Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn chwilio am dystiolaeth ynglŷn â'r defnydd o gosbau, a'u heffeithiolrwydd, ac yn ceisio barn pobl ar effeithiolrwydd codi lefel dirwyon fel mesur ataliol mwy addas.

### Cwestiynau ymgynghori

Yn eich barn chi, beth yw'r prif resymau dros fethu cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu?

[21] Adran 40 o Ddeddf 1963 ac adrannau 23, 26 a 28 o Ddeddf 1933

A ydych chi wedi cael profiad neu dystiolaeth a allai ein helpu i asesu'r achos dros newid y cosbau?

## 14. Sut i ymateb

14.1 Croesawn ymatebion ar-lein neu mewn e-bost i
Childperformance.consultation@education.gsi.gov.uk

neu gallwch bostio llythyr at:
Yr Adran Addysg / Department for Education
Ymgynghoriad Perfformiadau Plant / Child Performance Consultation
Targeted Safeguarding Policy Unit
Sanctuary Buildings, Level 1
Great Smith Street
London SW1P 3BT

neu, os ydych yn ymateb o Gymru, i

CSD3SafeguardingChildren@wales.gsi.gov.uk

neu bostio llythyr at:
Elaine Hepple
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 3 Awst 2012.

**Adrodd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad**

14.2 Cyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn ynghyd ag ymateb y llywodraeth ar wefannau'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru yn ystod yr hydref 2012.